


Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# CYLLID GIG CYMRU 2005

Adroddiad gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ac ar gael oddi wrth:

Y Llyfrfa Oriel
18-19 Y Stryd Fawr, Caerdydd,
CF10 1PT
Ffôn 029 2039 5548
Ffacs 029 2038 4347

Argraffwyd ar bapur Greencoat. Defnyddir 80% ffeibr ail-gylchedig a 20% virgin TCF pulp o goedwigoedd cynaliadwy i gynhyrchu papur Greencoat.

DG Ref: 5523VE

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth i Gymru 1998.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

31 Mawrth 2005

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn hollol annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n ardystio cyfrifon y Cynulliad a'i gyrff noddedig cyhoeddus cysylltiedig; ac mae ganddo awdurdod statudol i adrodd i'r Cynulliad ar y cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithioldeb sydd gan y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus noddedig wrth ddefnyddio eu adnoddau i gyflawni eu gweithrediadau.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.

Roedd Ian Summers, Andrew Lewis, Matthew Coe, Joanne Thomas a Phil Pugh yn nhîm astudio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Os am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru cysylltwch â:

Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru
3-4 Plas-y-Parc
Caerdydd
CF10 3DP
Ffôn: 029 2067 8500

e-bost: ian.summers@nao.gsi.gov.uk
gillian.body@nao.gsi.gov.uk
Cyfeiriad safle'r Gwe: http://www.agw.wales.gov.uk/index.htm

ISBN 1-90-421927-6
9 781904 219279







# CYLLID GIG CYMRU 2005

Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 31 Mawrth 2005

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol 1

Rhan 1

Cyflwyniad 6

Cwmpa 6

Sail yr Archwiliad o Gyfrifon Cryno 6

Canlyniadau'r Archwiliad o Gyfrifon Cryno 7

Y Comisiwn Archwilio a rôl ei archwilwyr penodedig 7

Archwiliad o gyfrifon blynyddol cyrff y GIG 8

Y Bwrdd Ymarfer Deintyddol 10

Adroddiadau ac atgyfeiriadau 10

Rhan 2

Perfformiad ariannol y GIG yng Nghymru: canlyniadau a rhagolygon blynyddol 11

Cyflwyniad 11

Perfformiad ariannol y byrddau iechyd lleol 11

Perfformiad ariannol ymddiriedolaethau'r GIG 13

Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2004-2005 13

Dadansoddiad o wariant yn ôl cyllideb rhaglen 15


Perfformiad yn erbyn polisi talu'r sector cyhoeddus 16

Sefyllfa ariannol GIG Cymru 17

Materion o'r cyfrifon sylfaenol 18

Cronfa Risg Cymru 19

Y Fenter Cyllid Preifat o fewn GIG Cymru 19



## Rhan 3


### Ailstrwythuro GIG Cymru 20

- Cyflwyniad 20
- Adeiladu ar y Fframwaith Llywodraethu 20
- Monitro perfformiad GIG Cymru 20
- Adolygiad o Gostau Newid Strwythurol 21
- Effaith adolygiadau o bwys o fewn y GIG 23


## Rhan 4


### Yr Heriau sy'n wynebu GIG Cymru 26

- Cyflwyniad 26
- Creu'r Cysylltiadaui manteisio i'r eithaf ar adnoddau 26
- Llywodraethu corfforaethol a'r fframwaith llywodraethu 27
- Y newyddion diweddaraf am dwyll yn y GIG 28
- Rôl y Comisiwn Archwilio yng Nghymru wrth geisio atal twyll 31
- Moderneiddio tâl 32
- Rhagnodi 32
- Datblygiadau Cyfrifyddu'r Llywodraeth Gyfan 32


## Atodiadau


1. Alldro a ragwelir ar gyfer 2004-2005 33
2. Perfformiad talu'r sector cyhoeddus 2002-2003 a 2003-2004 34
3. Atodlen ad-dalu ar gyfer dyrannu adnoddau ychwanegol a ddarparwyd o dan Gynlluniau Newid Strategol ac Effeithlonrwydd 36


## Mynegai o Ffigurau


1. Sefyllfa ariannol y bwrdd iechyd lleol 2003-2004 12
2. Ymddiriedolaethau'r GIG gyda phroblemau ariannol sylfaenol yn 2003-2004 14
3. Costau Cyllideb Rhaglen GIG Cymru 2003-2004 15
4. Perfformiad talu cyflenwyr cymharol y GIG yng Nghymru ar gyfer y blynyddoedd 2001-2002 i 2003-2004 16
5. Rhwymedigaethau wrth gefn GIG Cymru ar 31 Mawrth 2004 18
6. Costau trosiannol rhaglen newid strwythur GIG Cymru 22
7. Cynllun Cyflogaeth Estynedig 23
8. Cydymffurfiad y Bwrdd lechyd lleol â'r safonau Rheoli Risg Cymreig 27
9. Gwasauaethau gwrth-dwyll y GIG-enghreifftiau o achosion twyll 29
10. Crynodeb o waith a gyflawnwyd gan yr Uned Wirio ôl-bresgripsiwn 30










# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

1 Dyma fy mhedwerydd adroddiad blynyddol ar gyllid GIG Cymru a materion cysylltiedig. Mae'n cwmpasu'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004. Mae'n archwilio effaith yr ailstrwythuro ac yn ystyried yr heriau mawr ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

2 Penododd y Comisiwn Archwilio archwilwyr y 22 o fyrddau iechyd lleol a'r 14 o ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru. Fi sy'n gyfrifol am archwilio'r tri chyfrif cryno a baratowyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys deunydd a ddarparwyd gan y Comisiwn, ei archwilwyr penodedig, a Gwasanaeth Atal Twyll y GIG. Yr wyf yn ddiolchgar i'r sefydliadau hyn ac i Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol am eu cymorth wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn.

## Materion a gwmpaswyd gan yr adroddiad hwn

3 Mae **Rhan 1** o'r adroddiad hwn yn nodi sail fy archwiliad a gwaith y Comisiwn Archwilio a'i archwilwyr penodedig. Mae hefyd yn archwilio materion llywodraethu ariannol. Yn **Rhan 2**, cyflwynaf sylwadau ar berfformiad ariannol GIG Cymru yn ystod 2003-2004 a'i sefyllfa ariannol o ran y rhagolygon ariannol diweddaraf ar gyfer 2004-2005.Yn **Rhan 3**, cyflwynaf y wybodaeth ddiweddaraf ar y broses o ailstrwythuro GIG Cymru, ac archwiliaf effaith yr adolygiad o bwys a gynhaliwyd. Gan edrych i'r dyfodol yn **Rhan 4**, amlygaf heriau allweddol eraill a nodwyd wrth weithredu cynllun y GIG "Gwella Iechyd yng Nghymru"

## Prif ganfyddiadau a chasgliadau

### Archwiliad o gyfrifon blynyddol a chyfrifon cryno cyrff y GIG

4 Cafodd y cyfrifon cryno ar gyfer 2003-2004 eu hardystio ar 9 Rhagfyr 2004 a rhoddwyd barn archwilio ddiamod. Arweiniodd oedi wrth gyflwyno cyfrif Bwrdd Iechyd Lleol Powys at gwblhau cyfrif cryno byrddau iechyd lleol yn hwyr. O ganlyniad i hyn, cafwyd oedi wrth gwblhau a chyflwyno'r cyfrif cyfunol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn y dyddiad cau sef 30 Tachwedd 2004.

5 Yn ogystal, roedd nifer o faterion cyfrifyddu adnoddau na chawsant eu nodi tan yn hwyr yn y broses baratoi ac archwilio o ganlyniad i'r oedi. Penododd yr holl bartïon, gan gynnwys y byrddau iechyd lleol, archwilwyr, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd camau i sicrhau y caiff problemau tebyg eu hosgoi yn ystod 2004-05. Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r broses o drin y gronfa gyffredinol a'r balansau rhwng byrddau iechyd lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn enwedig balansau dyledwyr net sy'n cyfateb i gyfanswm o £190 miliwn ar gyfartaledd.

## Sefyllfa ariannol a'r broses o reoli'r GIG yng Nghymru

6 Roedd y broses o ailstrwythuro'r GIG yng Nghymru yn ystod 2003-2004, ynghyd â chyflwyno cyfrifoldebau cyfrifyddu adnoddau a chyfrifoldebau statudol newydd ar gyfer byrddau iechyd lleol, yn golygu nad oedd yn ymarferol cymharu perfformiad ariannol cyrff y GIG gyda'i gilydd yn rhesymol neu ganlyniadau 2002-2003 â chanlyniadau 2003-2004. Felly, mae'n fwy priodol adolygu'r ddyletswydd statudol nad yw costau gweithredu net (ar sail cyfrifyddu adnoddau) yn mynd y tu hwnt i'r adnoddau a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fyrddau iechyd lleol, yn hytrach nag ar sail gwarged/diffyg ar gyfer y flwyddyn ariannol.

7 **Perfformiad ariannol byrddau iechyd lleol:** £2.834 biliwn oedd yr alldro adnoddau net cyffredinol ar gyfer byrddau iechyd lleol, o gymharu â chyllideb adnoddau gwreiddiol o £2.827 biliwn. Darparwyd £8.9 miliwn o adnoddau ychwanegol i bum bwrdd iechyd lleol o dan eu Cynlluniau Newid Strategol ac Effeithlonrwydd i roi terfyn adnoddau terfynol o £2.836 biliwn. Cyflawnodd pob bwrdd iechyd lleol eu terfyn adnoddau terfynol ar gyfer 2003-2004 a nodwyd tanwariant cyffredinol o £1.5 miliwn yn erbyn y terfyn hwn. Nododd Gwasanaethau Iechyd Deintyddol Cyffredinol y Bwrdd Ymarfer Deintyddol ofyniad adnoddau ychwanegol o £1.2 miliwn (2002-2003 £0.6 miliwn).

8 **Perfformiad ariannol ymddiriedolaethau GIG:** Nododd cyfrifon cryno ymddiriedolaeth y GIG ar gyfer 2003-2004 ddiffyg o £9.7 miliwn ar gyfer y flwyddyn (diffyg o £10.3 miliwn wedi ei ailddatgan yn 2002-2003) gyda diffyg cronedig o £36.7 miliwn ar 31 Mawrth 2004 (31 Mawrth 2003: £27.4 miliwn wedi ei ailddatgan). Cafodd ffigurau cymharol 2002-2003 eu hailddatgan yn dilyn y broses o drosglwyddo Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys i Fwrdd Iechyd Lleol Powys ar 1 Ebrill 2003

9 Yn 2003-2004, mynegodd yr archwilwyr penodedig bryderon ynghylch sefyllfa ariannol pump o ymddiriedolaethau'r GIG. Cyflawnodd pob un o'r ymddiriedolaethau GIG eu dyletswyddau statudol, ac eithrio Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin, a fethodd â chyflawni ei tharged adennill costau, oherwydd na chafodd ei Chynllun Newid Strategol ac Effeithlonrwydd ei chymeradwyo'n ffurfiol.

10 **Alldro a ragwelir ar gyfer 2004-2005:** Ar gyfer 2004-2005 mae'r ymddiriedolaethau yn rhagweld diffyg o £7.8 miliwn. Mae'r byrddau iechyd lleol yn rhagweld alldro negyddol cyn dyrannu adnoddau ychwanegol o £5.9 miliwn. Yn ogystal, mae Comisiwn Iechyd Cymru yn rhagweld gorwariant negyddol cyn dyrannu adnoddau ychwanegol o £10.3 miliwn. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu Cynllun Newid Strategol ac Effeithlonrwydd ar gyfer Comisiwn Iechyd Cymru, ond nid yw wedi'i gymeradwyo eto. Darperir adnoddau ychwanegol o £24 miliwn o dan y Cynlluniau Newid Strategol ac Effeithlonrwydd yn 2004-2005, er mwyn galluogi byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG i gyflawni eu terfyn adnoddau a'u targedau adennill costau.

11 **Polisi a pherfformiad talu'r sector cyhoeddus:** Mae'n ofynnol i holl gyrff y GIG dalu anfonebau diamheuol o fewn 30 diwrnod oni chytunir ar dermau eraill â chyflenwyr. Yn ystod 2003-2004 talwyd 91.6 y cant o filiau yn ôl nifer o fewn y targed 30 diwrnod, sy'n is na'r meincnod o 95 y cant, ond sy'n welliant amlwg ar 2002-2003 (85.2 y cant) o hyd. Cafwyd amrywiaeth llai hefyd ym mherfformiad talu ar draws cyrff y GIG gan amrywio o 82.0 y cant i 99.8 y cant ar gyfer 2003-2004 o gymharu â 56.7 y cant i 99 y cant yn ystod 2002-2003 ar gyfer nifer y biliau a dalwyd o fewn 30 diwrnod.

12 Mae hyn yn parhau yn ddangosydd perfformiad pwysig ar gyfer holl gyrff y GIG yng Nghymru. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gofyn am gynlluniau gweithredu ffurfiol lle nad yw ymddiriedolaethau'r GIG a byrddau iechyd lleol yn cydymffurfio â'r ddyletswydd ariannol ffurfiol hon. Priodolwyd y gwelliannau i reolaethau diffiniadol tynnach a gyflwynwyd i gyrraedd y targed.

13 **Sefyllfa ariannol GIG Cymru:** Mae'r economi iechyd yng Nghymru yn parhau i wynebu pwysau ariannol sylweddol. £36.7 miliwn oedd diffyg incwm a gwariant net cronedig ymddiriedolaethau'r GIG ar 31 Mawrth 2004 (£27.4 miliwn wedi'i ailddatgan yn 2002-2003). Cofnododd cronfeydd cyffredinol y byrddau iechyd lleol falans negyddol o £67.7 miliwn, ac etifeddwyd y rhan fwyaf ohono o'r awdurdodau iechyd blaenorol a gofnododd ddiffyg cronedig ar 31 Mawrth 2003 o £60.2 miliwn. Roedd gan y Bwrdd Ymarfer Deintyddol falans negyddol ar ei gronfa gyffredinol o £13.6 miliwn (£12.4 miliwn yn 2002-2003). Cofnododd Comisiwn Iechyd Cymru falans negyddol ar ei gronfa gyffredinol o £5 miliwn ar 31 Mawrth 2004 a etifeddwyd gan yr awdurdodau iechyd fel rhan o'r broses ailstrwythuro.

14 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi fy sicrhau bod y sefyllfa yn cael ei rheoli drwy fonitro Cynlluniau Newid Strategol ac Effeithlonrwydd er mwyn dileu diffygion yn ystod y flwyddyn erbyn mis Mawrth 2006. Ceir amrywiaeth o ran y gofynion ariannu ar gyfer 2004-2005, ac nid oes angen unrhyw gymorth ar Ranbarth y Gogledd; mae £28.043m yn ofynnol ar gyfer y Canolbarth a Rhanbarth y Gorllewin; £37.847 miliwn ar gyfer Rhanbarth y De Ddwyrain a £25.364 miliwn yn ofynnol ar gyfer Comisiwn Iechyd Cymru. Mae'n ofynnol bod yr holl arian ychwanegol hwn yn cael ei adfer gan gyrff GIG erbyn 2008-2009, fodd bynnag, nid oes amserlen ad-dalu ar gyfer £36.938 miliwn o'r dyraniad hwn ar hyn o bryd. Mae'r Comisiwn Archwilio wedi mynegi pryderon nad yw'n bosibl cynnal y sefyllfa gyfredol ar gyfer cyrff GIG a byddant yn parhau i fonitro cynlluniau ariannol fel rhan o'u gwaith archwilio.

15 **Cronfa Risg Cymru:** Fel y nodwyd yn flaenorol, cymerwyd camau gan Gronfa Risg Cymru i atgyfnerthu eu trefniadau rheoli ariannol. Caiff y materion nad aethpwyd i'r afael â hwy o ran y sail ar gyfer darpariaethau a gofynion cyfrifyddu eu datrys ar gyfer blwyddyn ariannol 2005-2006. Mae'r trefniadau diwygiedig hyn wedi bod o gymorth i sicrhau bod gwariant y Gronfa, sef £25 miliwn ar setlo 189 o achosion o hawliadau esgeulustod clinigol ac anaf personol (£43 miliwn ar 246 o hawliadau yn ystod 2002-2003) wedi eu talu o fewn ei chyllideb.

## Ailstrwythuro GIG Cymru

16 **Monitro perfformiad GIG Cymru:** Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd a Safonau Cymunedol) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynnal adolygiadau o ddarpariaeth gofal iechyd. O 1 Ebrill 2004 archwiliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ansawdd ac effeithlonrwydd y gofal iechyd; rheolaeth ariannol a darbodusrwydd ac effeithlonrwydd ei ddarpariaeth yn unol â Safonau Rheoli Risg Cymru.

17 Cyflwynwyd y "cerdyn sgorio cytbwys" ym mis Gorffennaf 2004 fel elfen allweddol o'r Fframwaith Gwella Perfformiad. Mae'n darparu canolbwynt strwythurol ar amcanion strategol ac yn mynd i'r afael â materion ansawdd, diogelwch a chost wrth wneud penderfyniadau. O ystyried hinsawdd yr Agenda ar gyfer Newid, gweithredu contractau GMS a Chynllun yr Ail Gynnig, mae angen cyflymu'r broses weithredu er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau cystadleuol a sefydlu fframwaith perfformiad cadarn.

18 **Adolygu costau newid strwythurol:** Ym mis Gorffennaf 2002, cyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol na fyddai costau rhedeg y strwythur newydd yn mynd y tu hwnt i'r rhai o fewn y strwythur presennol, sef £71.1 miliwn ac y byddai costau trosiannol o fewn yr ystod £12.5 miliwn i £15.5 miliwn. Darparwyd ffigur wedi'i ddiweddaru o £71.3 miliwn i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mawrth 2003. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi fy hysbysu bod y costau rhedeg yn parhau o fewn y terfyn hwn. Nid oedd angen arian trosiannol yn dilyn adolygiadau cyllideb ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes. Cafodd costau trosiannol Rhaglen Newid Strwythurol GIG Cymru ar gyfer y cyfnod pedair blynedd hyd at 31 Mawrth 2005 eu hadolygu'n ffafriol i amcangyfrif cyllideb rhwng £10.9 miliwn a £14.1 miliwn. Yr alldro terfynol a ragwelir yw £10.6 miliwn.

19 **Effaith adolygiadau o bwys o fewn y GIG:** Yn dilyn yr "Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru" a gyhoeddwyd gan Derek Wanless, sefydlwyd Bwrdd Rhaglen er mwyn gweithredu'r gwelliannau o dan bedair thema - Atal, Cyflawni Gwasanaethau, Cynnwys Pobl a Phroffesiynau ac Atebolrwydd a Pherfformiad. O 1 Ebrill 2004 roedd gan bob bwrdd iechyd lleol gynllun datblygu wedi ei ariannu gan £30 miliwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r argymhellion o Adolygiad Wanless yn rhan o'r Fframwaith Cynllunio Strategol 10 mlynedd.

20 **Adolygiad o reolaethau mewnol yn y Ganolfan Gwasanaethau Busnes:** Daeth yr adolygiad o'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes a gynhaliwyd gan Atos KPMG Consulting ym mis Tachwedd 2003 i'r casgliad bod y systemau rheoli mewnol yn ddigonol. Fodd bynnag, amlygodd nifer o feysydd i'w gwella yn enwedig nifer ddigonol o staff a gwendidau yn swyddogaethau cyfrifyddu rheolwyr. Mae achos busnes yr Adolygiad o'r Ffordd Ymlaen a gymeradwywyd ym mis Medi 2004 yn cynnig lleihau'r pum swyddfa gyfredol i dair swyddfa yng Ngogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Ddwyrain Cymru. Mae'n gyfle i fynd i'r afael â materion gwasanaeth.

## Yr heriau sy'n wynebu GIG Cymru

21 **Creu'r Cysylltiadau: manteisio i'r eithaf ar adnoddau**: Nod draft cychwynnol yr adroddiad hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw sicrhau'r gwerth gorau am arian er mwyn darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac mae'n anelu at gyflawni gwerth £600 miliwn o welliannau ar draws holl gyrff y sector cyhoeddus erbyn 2010. Y prif feysydd lle y targedwyd arbedion yw caffael, gwasanaethau cymorth, ail-lunio gwasanaethau a gwell ddefnydd o staff. Mae'r GIG yng Nghymru wedi sefydlu nifer o fentrau cenedlaethol gan gynnwys cynllun peilot yng Ngogledd Cymru ar gyfer gwasanaethau a rennir a phrosiectau moderneiddio Technoleg Gwybodaeth. Mae'r GIG yn wynebu her hirdymor i adeiladu ar welliannau ymarferol a hirdymor er mwyn cyflawni'r arbedion a nodwyd yn "Creu'r Cysylltiadau".

22 **Llywodraethu Corfforaethol a'r Fframwaith Llywodraethu:** Mae holl gyrff y GIG yn cynnal asesiad blynyddol yn erbyn Safonau Rheoli Risg Cymru, sy'n cwmpasu risgiau clinigol a risgiau nad ydynt yn glinigol. Yn ystod 2003-2004 roedd yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG gyflawni 50% a 75% o gydymffurfiaeth, yn y drefn honno, yn erbyn pum safon graidd. Cyrhaeddodd 15 o'r 22 o fyrddau iechyd lleol y targed hwn a methodd tair ymddiriedolaeth y GIG â chyrraedd y targed. Pennwyd targed uwch, sef 75% o gydymffurfiaeth gyffredinol, ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Powys, fel comisiynydd a darparwr gwasanaethau, ond methodd â chyrraedd y targed hwn. Mae'r fframwaith llywodraethu yn parhau i fod yn ddull pwysig o nodi risgiau allweddol a chyfeirio adnoddau yn unol â hynny.

23 **Cynnydd wrth fynd i'r afael â thwyll yn y GIG:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i weithio'n effeithiol gyda Gwasanaeth Atal Twyll y GIG i gyflwyno mesurau i fynd i'r afael â thwyll yng Nghymru. Fel yr amlygwyd mewn adroddiadau blaenorol, mae'r Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch wedi llwyddo i leihau lefelau twyll fferyllol a thwyll optegol. Yn ystod 2004, cwblhawyd trydydd ymarfer yn amcangyfrif lefel yr achosion o dwyll ymhlith cleifion deintyddol, a bydd canlyniadau'r ymarfer ar gael yng Ngwanwyn 2005.

24 Bu i'r Uned Ddilysu Ôl-Daliadau, a sefydlwyd yn ystod 2001-2002 i ymchwilio i geisiadau i eithrio rhag talu costau presgripsiwn, archwilio 184,000 o sgriptiau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2004 (350,000 ar 31 Rhagfyr 2003). Llwyddodd i adennill £27,300 (£31,000 yn 2003-2004) ar gyfer incwm presgripsiynau a £64,600 arall (£34,000 yn 2003-2004) drwy gosbau a gordaliadau.

25 Derbyniodd Gwasanaeth Atal Twyll y GIG (Cymru) 47 o atgyfeiriadau o dwyll a llygredd honedig hyd at 31 Rhagfyr 2004. Cwblhaodd 30 o ymchwiliadau gan adennill £259,500. Mae'r 17 achos sy'n weddill yn cynnwys cronfeydd sy'n agos at £1 filiwn. Yn ystod 2003-2004 cwblhaodd y Tîm hefyd nifer o ymchwiliadau optegol gan arwain at ad-dalu £194,000. Gwnaethant barhau i gynnal nifer o raglenni i fynd i'r afael â thwyll, ac un enghraifft bwysig oedd ymarfer i ddatgelu ac atal achosion o dwyll ymhlith staff asiantaeth a staff banc nyrsio'r GIG.

26 Ar hyn o bryd mae 26 o Arbenigwyr Atal Twyll Lleol achrededig (22 yn 2002-2003) wedi'u lleoli yng nghyrff y GIG sy'n gyfrifol am ddatblygu diwylliant atal twyll ac ymchwilio i achosion o dan £15,000. Ar 31 Rhagfyr 2004, roeddent wedi derbyn 205 o atgyfeiriadau achos ac wedi adennill £283,202 yn erbyn 76 o achosion.

27 **Datblygiadau eraill:** Mae'r GIG yng Nghymru wedi dechrau'r broses o foderneiddio tâl ar gyfer ymgynghorwyr, Ymarferwyr Cyffredinol a staff y GIG fel ffordd o ymateb i'r her o wella cynhyrchiant yn yr hirdymor. Yn y byrdymor, bydd angen i'r broses weithredu gael ei rheoli'n ofalus. Oni wneir hyn bydd perygl sylweddol o neilltuo adnoddau ychwanegol sy'n arwain at welliannau prin mewn gwasanaethau, na ellir eu fforddio. Caiff trefniadau cytundebol ar gyfer deintyddion a fferyllwyr eu hadolygu hefyd fel rhan o'r gwelliannau hyn. Cyflawnwyd arbedion effeithlonrwydd er mwyn ariannu'r datblygiadau hyn yn rhannol drwy ail-negodi prisiau cyffuriau rhagnodi o dan y Cynllun Rheoleiddio Prisiau Prynu. Fodd bynnag, sicrhau cydbwysedd ariannol a dileu'r diwylliant diffyg yw'r heriau allweddol o hyd.

# 1 Cyflwyniad

## Cwmpas

1.1 Dyma fy mhedwerydd adroddiad ar gyllid GIG Cymru. Mae'n archwilio'r perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn weithredu gyntaf bwysig o dan y strwythur newydd fel a ganlyn:

- ansawdd ac amseroldeb y broses o baratoi cyfrifon a llywodraethu ariannol **(Rhan 1)**;
- canlyniadau ariannol 2003-2004 a'r rhagolygon ariannol diweddaraf ar gyfer 2004-2005 **(Rhan 2)**;
- materion yn ymwneud ag effaith yr ad-drefnu yng Nghymru **(Rhan 3)**;
- materion ariannol allweddol a fydd yn effeithio ar y gwasanaeth yn y dyfodol **(Rhan 4)**.

1.2 Mae'r **Atodiadau** yn darparu mwy o fanylion am yr alldro a ragwelir ar gyfer 2004-2005 ar gyfer cyrff y GIG, perfformiad ymddiriedolaethau'r GIG a'r byrddau iechyd lleol newydd o ran talu cyflenwyr unigol, ac amserlen ad-dalu dyraniadau adnoddau ychwanegol o dan Gynlluniau Newid Strategol ac Effeithlonrwydd.

1.3 Yn ddiweddar, cyflwynais adroddiad gwerth am arian i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar Amseroedd Aros y GIG yng Nghymru (Ionawr 2005). Bydd astudiaethau gwerth am arian pellach ar y GIG yng Nghymru yn 2005 yn cwmpasu achosion o drais yn erbyn staff y GIG, gofal dydd / llawdriniaeth dydd a chaffael cyfleustodau.

## Sail yr Archwiliad o Gyfrifon Cryno

1.4 O dan Adran 98(4) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977, mae'n ofynnol i mi archwilio, ardystio a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar gyfrifon cryno'r GIG a baratowyd gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r cyfrifon a gyflwynwyd gan y 22 o fyrddau iechyd lleol a'r 14 o ymddiriedolaethau'r GIG. Mae staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn archwilio'r gwaith o grynhoi'r cyfrifon sylfaenol unigol yn fanwl gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ategir yr archwiliad hwn gan asesiad manwl o ddibynadwyedd y wybodaeth sylfaenol a gynhwysir yng nghyfrifon archwiliedig cyrff unigol y GIG. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cynhaliodd staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru y dasg hon drwy adolygu gwaith yr archwilwyr a benodwyd gan y Comisiwn Archwilio, craffu ar eu hadroddiadau a thrafod eu canfyddiadau gyda hwy.

1.5 O 1 Ebrill 2005 bydd staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn trosglwyddo i gyflogaeth yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn ffurfio Swyddfa Archwilio Cymru. Daw'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilydd allanol statudol dros holl gyrff y GIG yng Nghymru a chaiff cyfrifon archwiliedig y cyrff hynny eu cyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gydweithredu â chyrff archwilio ac arolygu eraill gyda chylch gwaith GIG fel Arolygiaeth Gofal Iechyd newydd Cymru a'r Comisiwn Gofal Iechyd.

1.6 Roedd 2003-2004 yn flwyddyn o newid sylweddol i'r GIG yng Nghymru. O ganlyniad i ailstrwythuro gwasanaethau ar 1 Ebrill 2003, cafodd pum awdurdod iechyd eu disodli gan 22 o fyrddau iechyd lleol, sefydlwyd y Ganolfan Gwasanaethau Busnes i ddarparu swyddogaethau cynnal canolog i fyrddau iechyd lleol, unwyd Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys â Bwrdd Iechyd Lleol Powys, a datganolwyd gwasanaethau arbenigol i Gomisiwn Iechyd Cymru (Gwasanaethau Arbenigol).

1.7 2003-2004 oedd blwyddyn weithredu gyntaf y 22 o fyrddau iechyd lleol a hon oedd y flwyddyn gyntaf lle yr oedd yn rhaid i fyrddau iechyd lleol gyflwyno cyfrifon yn seiliedig ar fformat Cyfrifyddu Adnoddau newydd. Cyfrif Bwrdd Iechyd Lleol Powys yw'r gyfres fwyaf cymhleth o gyfrifon bwrdd iechyd lleol gan fod Powys yn gyfrifol am eu bwrdd iechyd lleol eu hunain a swyddogaethau Ymddiriedolaethau blaenorol, ynghyd â swyddogaethau gweddilliol yr awdurdodau iechyd blaenorol, a'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes sy'n darparu gwasanaethau cyfrifyddu i'r 21 o fyrddau iechyd lleol eraill.

## Canlyniadau'r Archwiliad o Gyfrifon Cryno

1.8 Er gwaethaf yr heriau sylweddol yn ystod y flwyddyn gyntaf, cyflwynodd 21 o fyrddau iechyd lleol eu cyfrifon archwiliedig o fewn y terfyn amser gofynnol sef 31 Gorffennaf 2004. Fodd bynnag, bu oedi hir a sylweddol cyn cwblhau'r datganiadau ariannol ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Powys, ac ni chawsant eu cadarnhau tan 16 Tachwedd 2004. Arweiniodd oedi wrth gyflwyno cyfrif Powys at gwblhau cyfrif cryno'r bwrdd iechyd lleol yn hwyr ac arweiniodd hefyd at oedi wrth gwblhau a chyflwyno'r cyfrif cyfunol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru a oedd yn ofynnol erbyn 30 Tachwedd 2004.

1.9 Yn ogystal â'r uchod, bu nifer o faterion cyfrifyddu adnoddau na chawsant eu nodi tan yn hwyr yn y broses oherwydd yr oedi. Cymerir camau eisoes sy'n cynnwys yr holl bartïon, gan gynnwys byrddau iechyd lleol, archwilwyr penodedig a Llywodraeth Cynulliad Cymru, i sicrhau na cheir problemau tebyg yn 2004-2005. Mae angen rhoi ystyriaeth fanwl i'r broses o drin y gronfa gyffredinol a'r balansau rhwng byrddau iechyd lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn enwedig balansau dyledwr net, sydd werth tua £190 miliwn ar hyn o bryd.

1.10 Ardystiais Gyfrifon Cryno 2003-2004 GIG Cymru ar 9 Rhagfyr a rhoddais farn archwilio ddiamod.

## Y Comisiwn Archwilio a rôl ei archwilwyr penodedig

1.11 Roedd y Comisiwn Archwilio yn gyfrifol am benodi archwilwyr Cyrff y GIG yng Nghymru a oedd yn cyflwyno adroddiadau eu hunain ar y cyfrifon hynny. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y Comisiwn Archwilio yn bennaf cyfrifol am sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Felly, roedd yn ofynnol i'r archwilwyr a benodwyd gan y Comisiwn asesu gwariant nid yn unig er cywirdeb ond hefyd er mwyn gweld a gyflawnwyd gwerth am arian. Roedd gwaith y Comisiwn Archwilio yng Nghymru ac archwilwyr penodedig yn cynnwys archwilio gwasanaethau cyhoeddus yn wrthrychol a chynorthwyo'r rhai sy'n gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus er mwyn sicrhau gwell canlyniadau. Cafodd y canfyddiadau a'r argymhellion a ddeilliodd o'r gwaith hwn eu trosglwyddo drwy ystod eang o gyhoeddiadau a digwyddiadau ar sail Cymru gyfan, yn ogystal ag i gyrff unigol.

1.12 Ar gyfer 2003-2004, gwnaeth y Comisiwn Archwilio y penodiadau canlynol i fyrddau iechyd lleol newydd:

- PricewaterhouseCoopers - byrddau iechyd lleol Ynys Môn, Blaenau Gwent, Sir y Fflint, Merthyr Tudful, Sir Fynwy ac Abertawe;
- Deloitte - Bwrdd Iechyd Lleol Casnewydd;
- KPMG - Bwrdd Iechyd Lleol Pen-y-bont ar Ogwr;
- Staff mewnol y Comisiwn Archwilio yng Nghymru - byrddau iechyd lleol Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Tor-faen, Bro Morgannwg a Wrecsam.

Ni phenodwyd unrhyw archwilwyr newydd i ymddiriedolaethau'r GIG.

1.13 Cyflawnodd yr holl archwilwyr penodedig eu gwaith ar gyfrifon cyrff iechyd unigol yn unol â Chod Ymarfer Archwilio'r Comisiwn Archwilio (y Cod). Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr penodedig gynllunio eu gwaith i ystyried ac asesu'r risgiau gweithredol ac ariannol sylweddol y mae cyrff iechyd unigol yn eu hwynebu sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau.

## Archwiliad o gyfrifon blynyddol cyrff y GIG

1.14 Mae'n ofynnol i bob corff yn y GIG gyhoeddi adroddiad blynyddol a datganiad cyfrifon yn unol â Chyfarwyddiadau Cyfrifon a llawlyfrau canllaw a gyhoeddir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Roedd yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol fabwysiadu egwyddorion cyfrifyddu adnoddau o'r cychwyn ond ni chafodd y rhain eu hehangu eto i ymddiriedolaethau'r GIG.

1.15 Mae'r archwiliwr penodedig yn rhoi barn ar gyfer pob corff yn y GIG ar ba un a yw'r cyfrifon blynyddol yn rhoi barn gywir a theg. Yn ogystal, ar gyfer byrddau iechyd lleol, mae hefyd yn ofynnol i archwilwyr roi barn ar reoleidd-dra incwm a gwariant y byrddau, a ph'un a yw'r rhain wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r archwilwyr yn adolygu p'un a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol gan Swyddogion Atebol byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau yn cydymffurfio â chanllawiau manwl a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a ph'un a yw'r Datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall a oedd yn hysbys i archwilwyr. Yn olaf, mae'r archwilwyr penodedig hefyd yn paratoi llythyr archwilio blynyddol ar gyfer pob sefydliad yn crynhoi'r materion allweddol at sylw bwrdd cyfarwyddwyr y corff ac adroddiadau a chyflwyniadau manwl ar faterion a phrosiectau penodol a gynhaliwyd fel rhan o'r archwiliad.

1.16 Cafodd bron pob un o gyfrifon archwiliedig ymddiriedolaethau'r GIG a byrddau iechyd lleol eu cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn unol â'r amserlen benodedig, sef 31 Gorffennaf 2004.

1.17 Bu oedi hir a sylweddol wrth gadarnhau'r cyfrif ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Powys, sy'n gymhleth ac na chafodd ei gwmpasu gan y llawlyfr canllaw ar gyfer y byrddau iechyd lleol eraill ond gan ganllaw ar wahân a ddarparwyd yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn. Y rheswm am hyn yw fod Bwrdd Iechyd Lleol Powys yn gyfrifol am bum swyddfa'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes a'r ystadau a'r balansau gweddilliol o'r awdurdodau iechyd blaenorol. Mae hefyd yn ymgorffori swyddogaethau cyn Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys. Mae pob un o'r 'ardaloedd' hyn yn cynhyrchu eu canlyniadau ariannol eu hunain a gaiff eu cyfuno i ffurfio cyfrif Bwrdd Iechyd Lleol Powys. Cafodd nifer o fersiynau drafft o'r cyfrif cyfunol eu cynhyrchu gan Bowys ar gyfer eu harchwilio, ac roedd y rhain yn amrywio o ran eu manylder a'u hansawdd. Darparwyd adnoddau ychwanegol sylweddol i Bowys gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r archwilwyr penodedig, ac o ganlyniad, cafodd y cyfrif ei gadarnhau ar 16 Tachwedd 2004. Rhoddwyd esboniadau ychwanegol am y problemau y daethpwyd ar eu traws yn y Datganiad ar Reolaeth Fewnol ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Powys.

1.18 Cafodd yr oedi wrth derfynu a chadarnhau cyfrif Powys a'r angen i ddatrys nifer o faterion cyfrifyddu cymhleth effaith uniongyrchol ar gwblhau'r archwiliad ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych oherwydd i'r Ymddiriedolaeth oedi wrth gytuno ar falansau gyda Bwrdd Iechyd Lleol Powys o ran Cronfa Risg Cymru. Yr Ymddiriedolaeth yw cynhaliwr Cronfa Risg Cymru a chaiff canlyniadau'r Gronfa eu cyfuno â chyfrifon yr Ymddiriedolaeth. O ganlyniad i'r oedi, bu i'r Ymddiriedolaeth bron â cholli ei dyddiad cau statudol i gyflwyno cyfrifon archwiliedig i'w Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol erbyn 30 Medi 2004.

1.19 Yn ogystal, o ganlyniad i gyflwyno dull cyfrifyddu adnoddau i'r byrddau iechyd lleol yn ystod eu blwyddyn ariannol gyntaf, amlygwyd dehongliadau gwahanol o ofynion allweddol dull cyfrifyddu adnoddau gan arwain at ddiffyg cysondeb wrth ymdrin ag eitemau tebyg yn y cyfrifon sylfaenol. Cydnabyddir na ddylid caniatáu i'r materion hyn ddigwydd dro ar ôl tro ac y dylid eu cywiro ar gyfer cyfrifon diwedd y flwyddyn ariannol 2004-2005. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cadarnhau bod yr holl bartïon - y byrddau iechyd lleol, archwilwyr penodedig a Llywodraeth Cynulliad Cymru - eisoes yn cymryd camau i sicrhau y caiff problemau tebyg eu hosgoi yn 2004-2005.

1.20 Caiff trefniadau gwell eu rhoi ar waith i wella nid yn unig ansawdd, ond hefyd amseroldeb y broses o gynhyrchu cyfrifon byrddau iechyd lleol ar gyfer 2004-2005. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys, yn enwedig, yr angen am adolygiad o ddulliau cyfrifyddu penodol, canllawiau diwygiedig i fyrddau iechyd lleol i'w galluogi i gydymffurfio'n llawn â gofynion cyfrifyddu adnoddau, cyfleoedd ychwanegol i hyfforddi a datblygu staff cyllid o fewn byrddau iechyd lleol, ac atgyfnerthu tîm cyllid yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sefydliadau'r GIG ac archwilwyr penodedig yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i helpu i sicrhau y cymerir camau priodol fel na chaiff problemau 2003-2004 eu hailadrodd mewn blynyddoedd dilynol.

1.21 Rhoddaf sylwadau pellach ar yr agweddau gweithredol ar y broses o ad-drefnu byrddau iechyd lleol yn **Rhan 3** o'r adroddiad hwn.

1.22 Am yr wythfed flwyddyn yn olynol, derbyniodd holl ymddiriedolaethau'r GIG farn ddiamod ar eu prif ddatganiadau ariannol. Fodd bynnag, cynhwyswyd sylwadau ychwanegol yn yr adroddiad archwilio ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin, a oedd yn amlygu diffyg Cynllun Newid Strategol ac Adfer a gymeradwywyd yn ffurfiol ar 31 Mawrth 2004. Cymeradwywyd y cynllun yn dilyn hynny gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n ofynnol bod cynlluniau o'r fath yn cael eu paratoi gan holl gyrff y GIG er mwyn amlinellu sut y cyflawnir cydbwysedd ariannol yn y dyfodol. Rhoddir y manylion yn **Rhan 2** o'r adroddiad hwn.

1.23 Yn ystod eu blwyddyn weithredu gyntaf, derbyniodd bob un o'r 22 o fyrddau iechyd lleol farn gywir a theg ddiamod. Mae'n ofynnol i'r archwilwyr penodedig hefyd roi barn ynglyn â rheoleidd-dra sy'n debyg i'r un a ddarparwyd mewn perthynas â'r hen awdurdodau iechyd. Yn ystod y flwyddyn flaenorol, derbyniodd pedwar o'r pum awdurdod iechyd farn amodol ynglyn â rheoleidd-dra oherwydd ansicrwydd ynghylch lefel cyflawnder incwm presgripsiynau. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r gwell gweithdrefnau a sefydlwyd gan yr Uned Ddilysu Prisiau Presgripsiwn i wirio ac adennill incwm presgripsiynau, ni wnaethpwyd unrhyw amodau o'r fath o ran unrhyw un o'r 22 o fyrddau iechyd lleol gan yr archwilwyr penodedig. Amcangyfrifwyd mai £2 filiwn oedd yr incwm presgripsiynau a gollwyd yn 2003-2004 o gymharu ag £8 miliwn yn 2002-2003.

1.24 Beirniadwyd sefydliadau'r GIG yn 2003-2004 o ran eu gallu i ragweld y sefyllfa o ran alldro ariannol yn gywir. Fe'm hysbyswyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol eu bod wedi cymryd camau sylweddol yn 2004-2005 i sicrhau bod y maes hwn yn cael ei wella. Cafodd sefydliadau eu monitro'n ofalus o ran y cymorth ariannol a oedd yn ofynnol ganddynt a'u gwargedau a'u diffygion rhagweladwy. Cadarnhawyd a sicrhawyd y rhagolygon ym mis Hydref 2004 fel y gellid cael cymeradwyaeth weinidogol i ddwyn unrhyw wargedau a gynlluniwyd ymlaen. Yn dilyn hyn, bydd pob sefydliad yn atebol am sicrhau y cyflawnir y rhagolygon y cytunwyd arnynt.

## Y Bwrdd Ymarfer Deintyddol

1.25 Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd a Safonau Cymunedol) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i ddileu'r Bwrdd Ymarfer Deintyddol. Caiff swyddogaethau'r Bwrdd eu trosglwyddo i awdurdod iechyd arbennig trawsffiniol newydd er nad yw dyddiad y trosglwyddo wedi'i bennu eto. Felly, ni chaiff y Bwrdd ei gynnwys yng nghyfrif cryno'r bwrdd iechyd lleol ar gyfer 2003-2004. Mae'r Senedd yn awr wedi penodi'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol fel archwiliwr y Bwrdd. Yn ystod blynyddoedd blaenorol, rhoddodd yr archwilwyr penodedig farnau amodol ar y sail y gallai diffyg rheolaethau arwain at daliadau amhriodol posibl, er enghraifft drwy wallau gweinyddol, camddeall rheoliadau, gwaith amhriodol neu o ansawdd gwael a lladrata bwriadol. Rhoddodd y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ynglyn â rheoleidd-dra ar y datganiadau ariannol ar gyfer 2003-2004.

## Adroddiadau ac atgyfeiriadau

1.26 Fel rhan o'u gwaith, mae archwilwyr penodedig yn ystyried cyfreithlondeb camau a gymerir gan gyrff y GIG. Caiff y rhan fwyaf o'r materion sy'n codi eu datrys drwy drafod gydag uwch reolwyr. Ar adegau, gall archwilwyr penodedig benderfynu ei bod er lles y cyhoedd i atgyfeirio at Lywodraeth Cynulliad Cymru neu i gyhoeddi adroddiad er lles y cyhoedd. Ni wnaethpwyd unrhyw adroddiadau neu atgyfeiriadau o'r fath ar gyfer 2003-2004. Mae gan archwilwyr ddyletswydd hefyd i gyfeirio mater at Gynulliad Cenedlaethol Cymru os credant fod corff y GIG wedi gwneud penderfyniad sy'n cynnwys, neu a allai gynnwys, gwariant anghyfreithlon. Unwaith eto, ni wnaed atgyfeiriadau o'r fath ar gyfer 2003-2004.

# Perfformiad ariannol y GIG yng Nghymru: canlyniadau a rhagolygon blynyddol 2

## Cyflwyniad

2.1 Mae'r rhan hon o'm hadroddiad yn darparu trosolwg o berfformiad ariannol GIG Cymru yn ystod 2003-2004 ac o'i sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2004, o ystyried y rhagolygon diweddaraf ar gyfer 2004-2005. Yn amlwg, yr effaith fwyaf yn ystod y flwyddyn oedd yr ailstrwythuro, datblygiadau yn y broses o foderneiddio strwythurau talu a pharatoi ar gyfer gweithredu'r rhaglen Agenda ar gyfer Newid yn llawn.

2.2 Mae ailstrwythuro'r GIG yng Nghymru yn 2003-2004, ynghyd â chyflwyno dull cyfrifyddu adnoddau a chyfrifoldebau statudol newydd ar gyfer byrddau iechyd lleol yn golygu nad yw'n ymarferol cymharu perfformiad ariannol cyrff y GIG â'i gilydd yn rhesymol neu gymharu canlyniadau 2002-2003 â chanlyniadau 2003-2004. Er enghraifft, nid yw swyddogaethau comisiynu gofal iechyd yr awdurdodau iechyd blaenorol yn cael eu cyflawni gan y byrddau iechyd lleol yn unig gan fod Comisiwn Iechyd Cymru (Gwasanaethau Arbenigol) yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau arbenigol.

2.3 O dan ddull cyfrifyddu'r llywodraeth ganolog, cyflwynwyd dull cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau ar gyfer y byrddau iechyd lleol pan gawsant eu creu ar 1 Ebrill 2003. Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd lleol barhau o fewn terfynau eu cyllidebau adnoddau. Cânt eu monitro ar eu defnydd o'r holl adnoddau ac ar y broses o gyllido eu gwariant yn hytrach na'r incwm a dderbynnir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n briodol felly i ystyried p'un a yw byrddau iechyd lleol wedi tanwario neu wedi gorwario yn erbyn y targed terfyn adnoddau hwn am ei bod yn ofynnol iddynt aros o fewn y terfyn adnoddau hwn bob blwyddyn. Mewn blynyddoedd blaenorol derbyniodd awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG incwm a chliriwyd yr incwm hwn yn erbyn eu gwariant er mwyn rhoi gwarged/diffyg ar gyfer y flwyddyn yn eu cyfrifon. Nid yw egwyddorion cyfrifyddu adnoddau wedi'u hehangu i ymddiriedolaethau'r GIG ac maent yn parhau i baratoi eu cyfrifon ar yr un sail â blynyddoedd blaenorol.

2.4 Rwyf wedi crynhoi'r canlyniadau fel a ganlyn:

- perfformiad ariannol byrddau iechyd lleol (paragraffau 2.5 i 2.7);
- perfformiad ariannol ymddiriedolaethau'r GIG (paragraffau 2.8 i 2.11);
- yr alldro a ragwelir ar gyfer 2004-2005 (paragraffau 2.12 i 2.13);
- dadansoddiad o wariant yn ôl cyllideb rhaglen (paragraffau 2.14 i 2.16);
- perfformiad yn erbyn polisi talu'r sector cyhoeddus (paragraffau 2.17 i 2.20);
- sefyllfa ariannol GIG Cymru (paragraffau 2.21 i 2.27);
- materion o'r cyfrifon sylfaenol (paragraffau 2.28 i 2.34);
- Cronfa Risg Cymru (paragraffau 2.35 i 2.36);
- y fenter cyllid preifat (paragraff 2.37).

## Perfformiad ariannol y byrddau iechyd lleol

2.5 Ar 1 Ebrill 2003 disodlwyd yr awdurdodau iechyd gan 22 o fyrddau iechyd lleol a oedd yn gyfrifol am gomisiynu, diogelu a chyflenwi gofal iechyd. Mae Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 yn nodi'r ddyletswydd statudol ar gyfer byrddau iechyd lleol, sef sicrhau nad yw costau gweithredu net yn mynd y tu hwnt i'r adnoddau a ddyrannwyd iddynt gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Hefyd, lle y rhagwelir gorwariant yn erbyn terfynau adnoddau, dylai Cynllun Newid Strategol ac Effeithlonrwydd gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

2.6 2.6 £3.185 biliwn oedd yr alldro adnoddau net cyffredinol ar gyfer byrddau iechyd lleol cyn ystyried incwm amrywiol o £58 miliwn wedi'i wrthbwyso gan wariant annewisol o £293 miliwn. Mae hyn yn rhoi £2.834 biliwn o gostau gweithredu net y mae'r byrddau iechyd lleol yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt gyda chyllideb adnoddau gwreiddiol o £2.827 biliwn. Darparwyd £8.9 miliwn o adnoddau ychwanegol i bum bwrdd iechyd lleol o dan eu Cynlluniau Newid Strategol ac Effeithlonrwydd i roi terfyn adnoddau terfynol o £2.836 biliwn. 1.5 miliwn o danwariant oedd alldro'r byrddau iechyd lleol yn erbyn y terfyn adnoddau terfynol hwn. Mae **Ffigur 1** yn nodi sefyllfa ariannol pob bwrdd iechyd lleol yn 2003-2004.

2.7 Yn y gorffennol, rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru fenthyciadau di-log i'r awdurdodau iechyd blaenorol. Roedd y benthyciadau a etifeddwyd gan y byrddau iechyd lleol yn cyfateb i £6.5 miliwn ar 31 Mawrth 2004.

## 1 Sefyllfa ariannol byrddau iechyd lleol: 2003-2004

| Bwrdd Iechyd Lleol | Terfyn adnoddau cyn cymorth SCEP £'000 | Cymorth SCEP £'000 | Terfyn adnoddau terfynol £'000 | Alldro costau gweithredu £'000 | Tanwariant costau gweithredol £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 65,315 | - | 65,315 | 65,105 | 210 |
| Blaenau Gwent | 75,019 | - | 75,019 | 74,894 | 125 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 133,163 | - | 133,163 | 133,043 | 120 |
| Caerffili | 153,862 | - | 153,862 | 153,772 | 90 |
| Caerdydd | 249,585 | 5,015 | 254,600 | 254,577 | 23 |
| Sir Gaerfyrddin | 167,648 | - | 167,648 | 167,626 | 22 |
| Ceredigion | 76,345 | - | 76,345 | 76,344 | 1 |
| Conwy | 114,745 | - | 114,745 | 114,742 | 3 |
| Sir Ddinbych | 108,524 | - | 108,524 | 108,522 | 2 |
| Sir y Fflint | 119,657 | - | 119,657 | 119,634 | 23 |
| Gwynedd | 132,076 | - | 132,076 | 131,485 | 591 |
| Merthyr Tudful | 62,775 | - | 62,775 | 62,766 | 9 |
| Sir Fynwy | 76,424 | 700 | 77,124 | 77,122 | 2 |
| Castell-nedd Port Talbot | 137,969 | - | 137,969 | 137,959 | 10 |
| Casnewydd | 127,377 | 900 | 128,277 | 128,262 | 15 |
| Sir Benfro | 114,506 | - | 114,506 | 114,501 | 5 |
| Rhondda Cynon Taf | 231,442 | - | 231,442 | 231,409 | 33 |
| Abertawe | 214,920 | - | 214,920 | 214,910 | 10 |
| Tor-faen | 91,486 | - | 91,486 | 91,467 | 19 |
| Bro Morgannwg | 117,888 | 1,811 | 119,699 | 119,699 | - |
| Wrecsam | 124,798 | - | 124,798 | 124,648 | 150 |
| Powys | 131,250 | 504 | 131,754 | 131,749 | 5 |
| **Cyfansymiau** | **2,826,774** | **8,930** | **2,835,704** | **2,834,236** | **1,468** |

*Ffynhonnell: Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol*

## Perfformiad ariannol ymddiriedolaethau'r GIG

2.8 Mae cyfrifon cryno 2003-2004 ymddiriedolaethau'r GIG yn nodi diffyg o £9.7 miliwn ar gyfer y flwyddyn (£10.3 miliwn o ddiffyg wedi ei ailddatgan yn 2002-2003) gyda diffyg cronedig o £36.7 miliwn ar 31 Mawrth 2004 (31 Mawrth 2003: £27.4 miliwn wedi ei ailddatgan). Cafodd symiau cymharol 2002-2003 eu hailddatgan yn dilyn trosglwyddo Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys i Fwrdd Iechyd Lleol Powys ar 1 Ebrill 2003. Dylid nodi i £10.2 miliwn o Gyllid Cymorth Strategol ychwanegol gael ei roi yn ystod 2003-2004. Y ddyled gronnol ar 31 Mawrth 2004 oedd £41 miliwn.

2.9 Mewn blynyddoedd blaenorol, cafodd y gofyniad statudol i ymddiriedolaethau'r GIG adennill eu costau ei fesur dros gyfnod treigl o dair blynedd, y gellid ei ymestyn i bum mlynedd drwy gytundeb â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ym mis Mai 2004, eglurodd Llywodraeth y Cynulliad y sefyllfa drwy ei gwneud yn ofynnol i ymddiriedolaethau greu sefyllfa ariannol lle y caiff costau eu hadennill yn ystod pob blwyddyn ariannol. Fodd bynnag, lle y bydd cynllun adfer cymeradwy ar waith, caiff y broses o gyflawni'r ddyletswydd o adennill costau ei mesur dros gyfnod oes y cynllun hwnnw. Ystyrir bod ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei dyletswydd i adennill costau os bydd yn cyflawni'r isafswm gwarged targed neu'r uchafswm diffyg targed a nodir yn y cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol honno. Mae'r gofynion hyn yn amodol ar oddefiant o £0.5 miliwn neu 0.5% o incwm gweithredu'r ymddiriedolaethau ar gyfer y flwyddyn honno, pa un bynnag sydd isaf.

2.10 Yn ystod 2003-2004 cadarnhaodd archwilwyr penodedig fod pob un o'r ymddiriedolaethau wedi cyflawni'r targed adennill costau ac eithrio Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin, oherwydd na chymeradwywyd Cynllun Newid Strategol ac Effeithlonrwydd yr Ymddiriedolaeth honno yn ffurfiol tan 2004-2005. Parhaodd holl ymddiriedolaethau'r GIG o fewn eu Terfyn Cyllid Allanol.

2.11 Mynegodd yr archwilwyr penodedig bryderon sylweddol ynghylch sefyllfa ariannol 5 ymddiriedolaeth unigol. Mae **Ffigur 2** isod yn crynhoi'r sefyllfa ariannol gyfredol:

## Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2004-2005

2.12 Roedd yn ofynnol i bob bwrdd iechyd lleol a oedd yn gofyn am ddyraniad adnoddau ychwanegol i gyflawni targedau terfyn adnoddau a phob ymddiriedolaeth a oedd yn rhagweld diffyg ar gyfer 2003-2004, gynhyrchu Cynllun Newid Strategol ac Effeithlonrwydd. Eglurodd y Cynlluniau hyn sut y dylid dileu'r angen am adnoddau ychwanegol a diffygion a ragwelir dros y tair blynedd nesaf ac eglurodd sut y byddai'r adnoddau ychwanegol mewn blwyddyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu had-dalu. Cafwyd asesiad trylwyr o'r Cynlluniau gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn canfod p'un a allent gyflawni'r arbedion a oedd yn ofynnol ac roedd yn agos at ddiwedd y flwyddyn cyn y gallai llawer ohonynt gael eu cadarnhau fel Cynlluniau a oedd yn ddigon cadarn i allu darparu'r cyllid ychwanegol. Nid oedd Cynllun Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin wedi'i gadarnhau o hyd ar ddiwedd y flwyddyn.

2.13 O ganlyniad, roedd y diffyg gwirioneddol ar gyfer ymddiriedolaethau'r GIG a'r alldro ar gyfer byrddau iechyd lleol yn 2003-2004 yn llawer gwell na'r cynlluniau gwreiddiol. Yn ogystal, mae rhai byrddau iechyd lleol eisoes wedi dechrau ad-dalu benthyciadau o ganlyniad i'r rhagolwg gwell. Ar gyfer 2004-2005 mae'r ymddiriedolaethau yn rhagweld diffyg o £7.8 miliwn. Mae'r byrddau iechyd lleol yn rhagweld alldro negyddol cyn y dyraniad adnoddau ychwanegol o £5.9 miliwn. Yn ogystal, mae Comisiwn Iechyd Cymru yn rhagweld gorwariant negyddol cyn y dyraniad adnoddau ychwanegol o £10.3 miliwn. Mae Cynllun Newid Strategol ac Effeithlonrwydd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ond nid yw wedi'i gymeradwyo gan Gomisiwn Iechyd Cymru eto. Darperir dadansoddiad o'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer 2004-2005 yn **Atodiad 1**.

## 2 Ymddiriedolaethau'r GIG oedd â phroblemau ariannol sylfaenol yn 2003-2004

| Ymddiriedolaeth y GIG | Sefyllfa ariannol |
|---|---|
| Caerdydd a'r Fro | Cofnododd yr Ymddiriedolaeth ddiffyg o £2.5m (2002-2003 diffyg o £3.4m). £8.8m oedd ei diffyg cronnol ar 31 Mawrth 2004.<br><br>Mae hyn yn welliant ar y diffyg targed gwreiddiol ar gyfer 2003-2004 sef £5.2 miliwn. Mae'n rhagweld y bydd yn rhagori eto ar y diffyg targed ar gyfer 2004-2005. Mae'r cynllun adfer pum mlynedd y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yng Ngorffennaf 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth ddychwelyd i warged yn 2006-07. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth greu sefyllfa o adennill costau yn 2008-09. Her allweddol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth yw darparu rhaglen gwella costau.<br><br>Roedd gan yr Ymddiriedolaeth £16.1m o fenthyciadau dyledus ar 31 Mawrth 2004 (£13.6m ar 31 March 2003). |
| Sir Gaerfyrddin | Nododd yr Ymddiriedolaeth ddiffyg o £4.9m yn 2003-2004. £14m oedd ei diffyg cronnol ar 31 Mawrth 2004.<br><br>Mae'r Cynllun Newid Strategol ac Effeithlonrwydd yn rhagweld adfer y gwasanaeth a'r cydbwysedd ariannol erbyn 2006. Mae'r cynllun hwn wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol bellach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cymeradwywyd y broses o ad-dalu benthyciadau a dderbyniwyd o 2002 i 2009 hefyd.<br><br>£13.7m oedd cyfanswm y benthyciadau dyledus ar 31 Mawrth 2004 (£9.2m ar 31 Mawrth 2003). |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | Nododd yr Ymddiriedolaeth ddiffyg o £0.9m (2002-2003 diffyg o £0.8m).<br><br>Cytunodd yr Ymddiriedolaeth ar gynllun adfer gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2003-2004 sy'n anelu at adfer cydbwysedd gwasanaethau a chydbwysedd ariannol erbyn 2006 a darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a dderbyniwyd yn 2002-2004 erbyn 2008-2009 hefyd. £2m oedd ei diffyg cronnol ar 31 Mawrth 2004.<br><br>£2.3m oedd cyfanwm y benthyciadau dyledus ar 31 Mawrth 2004 (£1.4m ar 31 Mawrth 2003). |
| Sir Benfro a Derwen | Nododd yr Ymddiriedolaeth ddiffyg o £3.3m (2002-2003 diffyg o £2.4m), gan gyflawni ei dyletswydd adennill costau, ond £5.8m yw ei dyled gronnol yn awr.<br><br>Cymeradwyodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun adfer yr Ymddiriedolaeth ym mis Mai 2004, sy'n anelu at adfer cydbwysedd ariannol erbyn 2006 tra'n darparu hefyd ar gyfer ad-dalu benthyciadau a dderbyniwyd erbyn 2008-2009.<br><br>£8.6m oedd cyfanswm y benthyciadau dyledus ar 31 Mawrth 2004 (£5.2m ar 31 Mawrth 2003). |
| Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | Nododd yr Ymddiriedolaeth warged o £1.1m.<br><br>Cytunodd yr Ymddiriedolaeth ar strategaeth ariannol ddiwygiedig yn 2000-2001 ac yn sgîl cyflawni ei thargedau ariannol ar gyfer 2003-2004, mae mewn sefyllfa dda i gyflawni cydbwysedd ariannol erbyn 2004-2005. Cafwyd gostyngiad o £1.1m yn ei diffyg cronnol yn ystod y flwyddyn, i £2.3m.<br><br>£0.3m oedd cyfanswm y benthyciadau dyledus ar 31 Mawrth 2004 (£1.2m ar 31 Mawrth 2003) y dylid eu had-dalu'n llawn erbyn 31 Mawrth 2005. |

*Ffynhonnell: Comisiwn Archwilio yng Nghymru*

## Dadansoddiad o wariant yn ôl cyllideb rhaglen

2.14 Yn nogfen Cyllidau GIG Cymru 2004, cyfeiriais at weithredu'r fenter Cyllidebu Rhaglen, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Gwybodaeth Ariannol, er mwyn cynllunio gwariant GIG yn ôl 23 o gyflyrau iechyd. Caiff canlyniadau'r ymarfer cyntaf i gynllunio gwariant byrddau iechyd lleol, Comisiwn Iechyd Cymru a'r Bwrdd Ymarfer Deintyddol ar gyfer 2003-2004 eu nodi yn **Ffigur 3**.

2.15 Yn anochel, ceir rhai cyfyngiadau ar ansawdd y wybodaeth o'r ymarfer cyntaf hwn. Yn arbennig, nid oedd yn bosibl dyrannu cyfran sylweddol o wariant gwasanaethau meddygol cyffredinol i gategorïau rhaglen, felly cafodd y gwariant hwn ei gynnwys o fewn categori 23. Yn ogystal, nid yw systemau gweithgaredd gofal iechyd ar gyfer gweithgaredd nad yw'n ymwneud â chleifion mewnol a gweithgaredd achosion dydd yn casglu digon o wybodaeth yn rheolaidd ar gyflwr claf er mwyn galluogi'r gweithgaredd hwnnw i gael ei ddyrannu'n uniongyrchol i gategori rhaglen. Cafodd y costau hyn eu dosrannu gan ddefnyddio gwybodaeth leol. Er y cyfyngiadau hyn, mae'r wybodaeth, sydd hefyd ar gael ar lefel bwrdd iechyd lleol, yn darparu offeryn defnyddiol ar gyfer cynllunio gwasanaethau a rheoli perfformiad yn genedlaethol ac yn lleol.

### 3 Costau Cyllideb Rhaglen GIG Cymru 2003-2004

| | **Categorïau cyllideb rhaglen** | **Cyfanswm £m** | **Cyfanswm %** |
|---|---|---|---|
| 1 | Clefydau heintus | 51 | 1.4 |
| 2 | Canserau a thyfiannau | 226 | 6.2 |
| 3 | Anhwylderau gwaed | 36 | 1.0 |
| 4 | Problemau endocrinaidd, maethol a metabolaidd | 112 | 3.1 |
| 5 | Problemau iechyd meddwl | 429 | 11.8 |
| 6 | Problemau anabledd dysgu | 75 | 2.1 |
| 7 | Problemau system niwrolegol | 107 | 2.9 |
| 8 | Problemau gyda'r llygaid/golwg | 79 | 2.2 |
| 9 | Problemau clywed | 20 | 0.5 |
| 10 | Problemau cylchrediad | 382 | 10.5 |
| 11 | Problemau anadlu | 241 | 6.6 |
| 12 | Problemau deintyddol | 137 | 3.8 |
| 13 | Problemau gastroberfeddol | 240 | 6.6 |
| 14 | Problemau â'r croen | 81 | 2.2 |
| 15 | Problemau â'r system cyhyrysgerbydol (heb gynnwys Trawma) | 164 | 4.5 |
| 16 | Trawma ac anafiadau (yn cynnwys llosgiadau) | 222 | 6.1 |
| 17 | Anhwylderau'r system genhedlol-droethol (heb gynnwys anffrwythlondeb) | 159 | 4.4 |
| 18 | Mamolaeth ac iechyd atgynhyrchiol | 152 | 4.2 |
| 19 | Plant newydd-anedig | 27 | 0.7 |
| 20 | Gwenwyno | 34 | 1.0 |
| 21 | Unigolion iach | 89 | 2.5 |
| 22 | Anghenion gofal cymdeithasol | 45 | 1.2 |
| 23 | Arall | 518 | 14.5 |
| | **Cyfanswm** | **3,626** | **100** |

*Ffynhonnell: Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol*

## Strategaeth Gwybodaeth Ariannol


2.16 Cyfeiriodd fy adroddiad yn 2004 hefyd at sefydlu Bwrdd Strategaeth Gwybodaeth Ariannol mewn ymateb i faterion a godwyd yn yr Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Thargedu Iechyd Gwael. Roedd aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys uwch swyddogion o'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a chynrychiolwyr o'r GIG a llywodraeth leol. Bwriedir cyhoeddi'r Strategaeth yng Ngwanwyn 2005. Yn ogystal â'r wybodaeth cyllidebu rhaglen ar gyflyrau gofal iechyd sydd eisoes yn cael eu datblygu, bydd y Strategaeth hefyd yn cynnig dadansoddi costau yn ystod y camau ar y llwybr gofal, ac yn ôl grwp cleientiaid/oedran.

## Perfformiad yn erbyn polisi talu'r sector cyhoeddus

2.17 Mae'n ofynnol i holl gyrff y GIG gydymffurfio â chod talu'n brydlon y CBI a rheolau cyfrifyddu'r Llywodraeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob anfoneb ddiamheuol gael ei thalu o fewn 30 diwrnod, oni chytunir ar dermau eraill gyda chyflenwyr. Mae talu o leiaf 95 y cant o holl filiau cyflenwyr nad ydynt yn rhan o'r GIG bellach yn ddyletswydd ffurfiol ar bob corff GIG.

2.18 Mae **Ffigur 4** yn dangos y gwelliant sylweddol ym mherfformiad talu cyflenwyr ar sail Cymru gyfan am y tair blynedd diwethaf o ran nifer y biliau a dalwyd ond mae'n dangos dirywiad bach arall o ran gwerth (91.9 y cant o gymharu â 93.8 y cant ar gyfer 2002-2003).

4 Perfformiad talu cyflenwyr cymharol y GIG yng Nghymru ar gyfer y blynyddoedd 2001-2002 i 2003-2004




*Ffynhonnell: Cyfrifon Cryno GIG (Cymru) ar gyfer 2001-2002, 2002-2003 a 2003-2004*

2.19 Mae'r cyfartaledd o 91.6 y cant o filiau a dalwyd o fewn y targed (2002-2003: 85.2 y cant) yn well na'r blynyddoedd blaenorol ond mae'n is na'r meincnod 95 y cant o hyd. Fodd bynnag, cafwyd llai o amrywiaeth o lawer yng nghyfanswm y biliau a dalwyd o fewn 30 diwrnod o 82.0 y cant i 99.8 y cant ar gyfer 2003-2004 o gymharu â 56.7 y cant a 99 y cant ar gyfer 2002-2003 a phriodolir y gwelliant nodedig hwn i'r broses o weithredu rheolaethau diffiniadol tynnach i gyrraedd targedau ffurfiol. Tynnodd yr archwilwyr penodedig sylw at y ffaith mai dim ond 12 bwrdd iechyd lleol a phum ymddiriedolaeth a oedd wedi cyflawni'r gofyniad talu'n brydlon o 95%. Priodolwyd hyn i hanner cyntaf y flwyddyn pan oedd systemau prosesu taliadau effeithlon yn cael eu sefydlu yn y byrddau iechyd lleol. O ganlyniad, cafwyd problemau yn y Ganolfan Gwasanaethau Busnes lle y bu oedi wrth brosesu gwybodaeth ariannol ar ran byrddau iechyd lleol. Yn adroddiad y llynedd, nodais y byddai angen cynlluniau gweithredu ffurfiol gan gyrff y GIG yn nodi sut y gellid gwella perfformiad. Mae'r cynlluniau hyn ar waith bellach ac yn cael eu monitro gan swyddfeydd rhanbarthol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

2.20 Nodir perfformiad talu pob bwrdd iechyd lleol ac ymddiriedolaeth GIG yn 2003-2004 a 2002-2003 yn **Atodiad 2**. Ni chofnodwyd unrhyw log masnachol ar daliadau hwyr yng nghyfrifon sylfaenol y GIG (2002-2003: dim).

## Sefyllfa ariannol GIG Cymru

2.21 £36.7 miliwn oedd diffyg incwm a gwariant net cronedig ymddiriedolaethau'r GIG ar 31 Mawrth 2004 (£27.4 miliwn wedi ei ailddatgan yn 2002-2003). Nododd cronfeydd cyffredinol y byrddau iechyd lleol falans negyddol o £67.7 miliwn, yr etifeddwyd y rhan fwyaf ohono o'r awdurdodau iechyd blaenorol a oedd â diffyg cronedig o £60.2 miliwn ar 31 Mawrth 2003. Roedd gan y Bwrdd Ymarfer Deintyddol falans negyddol o £13.6 miliwn ar ei gronfa gyffredinol (£12.4 miliwn yn 2002-2003). Cofnododd Comisiwn Iechyd Cymru falans negyddol o £5 miliwn ar ei gronfa gyffredinol ar 31 Mawrth 2004 a etifeddwyd o'r awdurdodau iechyd fel rhan o'r broses ailstrwythuro.

2.22 O ran y sefyllfa hanesyddol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi darparu ar gyfer diffygion a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol gan gyrff y GIG. Caiff benthyciadau sy'n cyfateb i £17.5 miliwn eu dileu pan fydd yr ymddiriedolaethau sy'n dal y ddyled hon yn bodloni gofyniad y Gweinidog i gyflawni cydbwysedd ariannol sylfaenol.

2.23 Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi dweud wrthyf hefyd bod y sefyllfa gyfredol yn GIG Cymru yn cael ei rheoli drwy broses gadarn i ddod â'r diwylliant o orwario i ben a sicrhau y caiff cydbwysedd ariannol sylfaenol ei adfer. Mae proses y Fframwaith Gwasanaeth ac Ariannol yn sicrhau ei bod yn ofynnol i holl gyrff y GIG y mae angen dyraniad adnoddau ychwanegol arnynt neu sy'n rhagweld diffyg, baratoi Cynlluniau Newid Strategol ac Effeithlonrwydd er mwyn cyflawni cydbwysedd ariannol sylfaenol erbyn 31 Mawrth 2006. Er mwyn pwysleisio'r cymhelliannau dros gynnal cydbwysedd ariannol, bydd angen adfer unrhyw adnoddau ychwanegol a ddefnyddir gan gyrff y GIG o ddyraniad adnoddau blynyddoedd dilynol.

2.24 Ceir proffil o'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG i gyflawni eu terfyn adnoddau a'u targedau adennill costau bob blwyddyn, ynghyd â'r addaliadau cyfredol a gynlluniwyd o dan eu Cynlluniau Newid Strategol ac Effeithlonrwydd, yn **Atodiad 3**.

2.25 Ceir amrywiaeth rhanbarthol sylweddol yng ngofynion ariannu cyrff y GIG yng Nghymru. Nid oes angen cyllid adnoddau ychwanegol ar y byrddau iechyd lleol a'r ymddiriedolaethau yn Rhanbarth y Gogledd ar hyn o bryd o dan y Cynlluniau Newid Strategol ac Effeithlonrwydd. Mae'r Canolbarth a Rhanbarth y Gorllewin yn gofyn am gyfanswm o £28.043 miliwn hyd at 2004-2005 ac mae Rhanbarth y De Ddwyrain yn gofyn am £37.847 miliwn o adnoddau ychwanegol o dan y Cynlluniau. Yn ogystal â hyn, mae Comisiwn Iechyd Cymru yn gofyn am £25.364 miliwn o gyllid ychwanegol.

2.26 Mae'n destun pryder mawr nad oes cynllun cymeradwy ar gyfer ad-dalu cyfanswm o £25.364 miliwn o gyllid a nodwyd gan Gomisiwn Iechyd Cymru. Yn ogystal, nid yw amseriad y broses o ad-dalu cyfanswm o £11.574 miliwn o gyllid ar gyfer cyrff eraill y GIG yn Rhanbarth y De Ddwyrain wedi'i gadarnhau eto. Mae angen datrys y mater hwn yn gyflym er mwyn sicrhau y gall y GIG yng Nghymru gyrraedd ei darged o sicrhau cydbwysedd ariannol erbyn 2008-2009.

2.27 Mae'r economi iechyd yng Nghymru yn parhau i wynebu problemau ariannol sylweddol. Mae'r archwilwyr penodedig wedi mynegi eu barn nad oes modd cynnal y sefyllfa hon ac wedi mynegi eu pryderon ynghylch cyrff iechyd unigol yn eu Llythyron Archwilio Blynyddol i'r priod fyrddau. Mae'r rhan fwyaf o gyrff y GIG yng Nghymru sydd â phroblemau ariannol sylfaenol wedi sefydlu cynlluniau adfer. Bydd cyflawni targedau ariannol, cyflenwi Cynlluniau Newid Strategol ac Effeithlonrwydd a sicrhau'r gwelliannau gofynnol mewn gwasanaethau yn her fawr i holl gyrff y GIG yn 2004-2005 a thu hwnt i hynny. Mae'r archwilwyr penodedig yn parhau i fonitro'r broses o weithredu Cynlluniau Newid Strategol ac Effeithlonrwydd fel rhan o'u gwaith archwilio.

# Materion o'r cyfrifon sylfaenol

## Cost nyrsys asiantaeth

2.28 Mewn adroddiadau blaenorol, rwyf wedi tynnu sylw at gostau sylweddol nyrsys asiantaeth. Mae'r gost o ddefnyddio nyrsys asiantaeth yng Nghymru yn parhau i godi'n sylweddol bob blwyddyn: yn ystod 2003-2004 roedd yn £21.4 miliwn (2002-2003 £18 miliwn, 2001-2002 £15 miliwn, 2000-2001 £10 miliwn, a 1999-2000 £8 miliwn). Mae Is-adran Rheoli Perfformiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi bod yn monitro'r gwariant ar asiantaethau ac wedi bod yn gweithio'n agos gydag ymddiriedolaethau i bennu ffyrdd o leihau'r gwariant. Nodwyd bod sawl ymddiriedolaeth yn gwneud defnydd uchel o nyrsys asiantaeth ac mae'r ymddiriedolaethau hyn yn arbennig wedi cael eu targedu â mentrau i leihau'r ddibyniaeth hon, sef Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro yn bennaf, a oedd yn cyfrif am 39 y cant o gost nyrsys asiantaeth yn 2003-2004 (39 y cant yn 2002-2003) ac Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Gwent a oedd yn cyfrif am 37 y cant (38 y cant 2002-2003).

2.29 Mae pob ymddiriedolaeth wedi datblygu strategaeth Recriwtio a Chadw staff, a roddwyd ar waith yn 2003-2004. Mae rhai o'r mentrau a gyflwynwyd gan yr ymddiriedolaethau yn cynnwys contractau cyflogaeth sy'n seiliedig yn unig ar nifer yr oriau a gaiff eu gweithio y flwyddyn i ddarparu trefniadau gweithio i ddiwallu anghenion unigolion, darparu cyfleusterau meithrinfa a chynlluniau talebau gofal plant i gynnal ymagwedd hyblyg tuag at weithio sifftiau.

## Costau ymddeoliad cynnar o ganlyniad i salwch

2.31 Yn ystod 2003-2004 cafwyd 294 achos o ymddeoliadau cynnar ar draws ymddiriedolaethau'r GIG a arweiniodd at gostau pensiwn ychwanegol o £17.5 miliwn (2002-2003, 299 o achosion yn costio £14.3 miliwn). Y gost ar gyfartaledd fesul person yn 2003-2004 oedd £59,598 o gymharu â £47,742 yn 2002-2003. Cadarnhaodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod y pecynnau ymddeol wedi cael eu llunio yn unol ag arweiniad a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2002 a bod costau ar gyfer taliadau diswyddo yn parhau i gael eu monitro'n ofalus.

## Rhwymedigaethau wrth gefn

2.32 Dengys **Ffigur 5** rwymedigaethau wrth gefn GIG Cymru ar 31 Mawrth 2004. Mae'r rhain yn cynrychioli rhwymedigaethau posibl na ellir, yn ôl eu natur, eu mesur yn aml gydag unrhyw sicrwydd rhesymol, ac ni ddarperir ar eu cyfer felly yn y cyfrifon cryno.

## Esgeulustod clinigol

2.33 Ar 31 Mawrth 2004, £134.5 miliwn oedd y rhwymedigaethau ar gyfer hawliadau esgeulustod clinigol a gynhwyswyd ar fantolenni cyrff y GIG (31 Mawrth 2003 £155.7 miliwn). Mae £267.9 miliwn amcangyfrifedig o hawliadau y mae dadl yn eu cylch am esgeulustod gan gyflogwyr neu esgeulustod meddygol honedig, lle mae'r tebygolrwydd o dalu yn "bosibl" yn hytrach na "thebygol", wedi eu heithrio o'r darpariaethau hyn, ac wedi eu datgelu fel rhwymedigaethau wrth gefn.

**5** Rhwymedigaethau wrth gefn GIG Cymru ar 31 Mawrth 2004

| | Byrddau iechyd lleol £ miliwn | Ymddiriedolaethau'r GIG £ miliwn | Cyfanswm ar 31 March 2004 £ miliwn | Cyfanswm ar 31 March 2003 £ miliwn |
|---|---|---|---|---|
| Hawliadau cyfreithiol | 95.9 | 172.0 | 267.9 | 269.9 |
| Gofal parhaus | - | - | - | 10.1 |
| Arall | 0.7 | - | 2.3 | 2.3 |
| **Cyfanswm** | **96.6** | **172.0** | **270.2** | **282.3** |

*Ffynhonnell: GIG (Cymru) Cyfrifon Cryno 2002-2003 a 2003-2004*

## Gofal parhaus

2.34 Fel y nodais yn fy adroddiad blaenorol, daeth adroddiad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Iechyd i'r casgliad ym mis Chwefror 2003, yng ngoleuni Dyfarniad Coughlan, na fu cyrff y GIG yn dedfnyddio canllawiau Adrannol yn gywir i weld a oedd pobl yn gymwys i gael arian GIG er mwyn derbyn gofal mewn cartrefi nyrsio. Yn ei chyfrifon yn 2002-2003, darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y costau a oedd yn gysylltiedig â hawliadau ôl-weithredol cyn 1 Ebrill 2003. Roedd cyfrifoldeb ar fyrddau iechyd lleol i reoli a darparu ar gyfer unrhyw hawliadau lleol newydd a oedd yn codi ar ôl y dyddiad hwn. Ar 31 Mawrth 2004 cynhwysodd byrddau iechyd lleol ddarpariaeth ar gyfer £1.843 miliwn ar gyfer achosion gofal parhaus ar ôl 1 Ebrill 2003 a darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer £13 miliwn o gostau. Nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â'r mater hwn wedi'u datrys yn llawn eto, ac mae angen datrys materion sy'n ymwneud â lefel y taliadau llog hefyd. Fodd bynnag, mae'n glir bod hwn yn faes sy'n creu pwysau ariannol parhaus i'r GIG.

## Cronfa Risg Cymru

2.35 Fel y nodais yn fy adroddiad yn 2004, comisiynodd Cyfarwyddwr GIG Cymru adolygiad allanol o Gronfa Risg Cymru a chymeradwywyd yr argymhellion terfynol ym mis Ebrill 2003. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cadarnhau bod nifer sylweddol o gamau wedi'u cymryd i wella'r trefniadau rheoli yn y maes hwn ers cyhoeddi'r adroddiad a bod y rhain wedi'u monitro'n agos. Mae'r prif faes nad aethpwyd i'r afael ag ef yn ymwneud â'r gofynion cyfrifyddu a sail y darpariaethau a wnaed. Aeth y Trysorlys i'r afael â'r mater hwn a chaiff y canlyniadau eu rhoi ar eu ffurf derfynol wrth baratoi ar gyfer blwyddyn ariannol 2005-2006. Yn ogystal, mae actiwari Cronfa Risg Cymru wedi argymell newid yn 2005 i system lle y mae premiymau a delir gan gyrff y GIG yn seiliedig ar berfformiad rheoli risg yn hytrach na hanes hawliadau, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

2.36 Mae'r trefniadau diwygiedig hyn wedi helpu i sicrhau bod gwariant y Gronfa o £25 miliwn wedi talu setliadau 189 o achosion o hawliadau esgeulustod clinigol ac anaf personol (2002-2003: £43 miliwn ar 246 o hawliadau) o'r gyllideb heb yr angen i godi premiymau ychwanegol. Roedd y swm a dalwyd yn ystod y flwyddyn ariannol yn is na'r disgwyl, yn rhannol o ganlyniad i'r ffyrdd gwahanol y caiff hawliadau eu strwythuro a rhai achosion gwerth uchel sy'n cael eu cario ymlaen i 2004-2005. Yn ystod y flwyddyn, roedd cyfanswm o 58 o achosion yn fwy na £100,000 gyda setliad ar gyfartaledd o £353,719 (2002-2003: 45 o achosion gyda setliad ar gyfartaledd o £527,000).

## Y Fenter Cyllid Preifat o fewn GIG Cymru

2.37 Roedd cyfrifon cryno ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ar gyfer 2003-2004 yn cynnwys saith ymddiriedolaeth yn datgelu 13 o drafodion PFI ar wahân. Nid oedd unrhyw gynlluniau newydd yn 2003-2004. £114.2 miliwn yw'r gwerth cyfalaf amcangyfrifedig sy'n cwmpasu'r 13 o drafodion PFI ar wahân: rhoddir cyfrif am un cynllun ar y fantolen (£2.6 miliwn) ac nid yw deuddeg yn ymddangos ar y fantolen (£111.6 miliwn). £20 miliwn oedd y gwariant gweithredol cysylltiedig ar gyfer 2003-2004 (2002-2003 £11.4 miliwn). Mae ymddiriedolaethau yn ymrwymedig i dalu taliadau blynyddol gwerth £20.3 miliwn o dan y cynlluniau hyn. Datblygwyd cynllun newydd sydd â gwerth cyfalaf o £5 miliwn yn ystod 2004-2005 yn Nhrefynwy gan Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Gwent sy'n darparu model newydd o gyfleuster gofal.

# 3 Ailstrwythuro GIG Cymru

## Cyflwyniad

3.1 Fel y rhagwelwyd yn fy adroddiad diwethaf, mae'r broses o ailstrwythuro'r GIG yng Nghymru wedi arwain at newidiadau sylweddol yn 2003-2004. Diddymwyd y pum awdurdod iechyd ar 31 Mawrth 2003 ac fe'u disodlwyd gan 22 o fyrddau iechyd lleol. Unwyd Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys â Bwrdd Iechyd Lleol Powys a chrëwyd nifer o gyrff eraill i ddarparu cymorth ychwanegol i'r GIG yng Nghymru gan gynnwys:

- **Canolfan Gwasanaethau Busnes** - (rhan o Fwrdd Iechyd Lleol Powys) sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys cymorth ariannol, contractwyr, adnoddau dynol a chymorth TG i fyrddau iechyd lleol.
- **Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru** - sy'n darparu cyfleusterau Iechyd Cyhoeddus arbenigol i gynorthwyo'r byrddau iechyd lleol;
- **Comisiwn Iechyd Cymru (Gwasanaethau Arbenigol)** - un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n darparu arweiniad, cyngor a chymorth penodedig ar gomisiynu gwasanaethau eilaidd a rhanbarthol arbenigol.

Sefydlwyd nifer o fforymau a gweithgorau hefyd i fynd i'r afael â materion penodol. Ymhlith y rhain mae Bwrdd Rhaglen Wanless ac Is-grwp Adnoddau er mwyn datblygu argymhellion "Yr Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru" wedi ei gynghori gan Derek Wanless; Bwrdd Strategaeth Gwybodaeth Ariannol a'r Bwrdd Cyllidebu Rhaglen er mwyn ystyried effaith adroddiadau allanol allweddol ar bob lefel o'r GIG yng Nghymru; a Grwp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan sy'n darparu cyngor ar reoli meddyginiaethau yn strategol a rhagnodi i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## Adeiladu ar y Fframwaith Llywodraethu

3.2 Rhoddodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 swyddogaethau arolygu gofal iechyd newydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru (a gyflawnir yn awr gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o fewn Llywodraeth y Cynulliad). Sefydlodd hefyd y Comisiwn Gofal Iechyd - sy'n gorff a fydd yn gweithredu ledled Cymru a Lloegr. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi cyhoeddi safonau ar gyfer ymgynghori ac mae'n gweithio gyda holl gyrff yr arolygiaeth ar hyn o bryd i sicrhau y cynhelir arolygiadau mewn ffordd sy'n effeithiol ac nad yw'n gorlwytho'r gwasanaeth o ran gofynion arolygu gwahanol gan gyrff gwahanol.

3.3 Yr her barhaus i Lywodraeth Cynulliad Cymru fydd sicrhau bod y mentrau hyn, ynghyd â Safonau Rheoli Risg Cymru a threfniadau llywodraethu corfforaethol presennol, gan gynnwys y datganiad rheolaeth fewnol, yn cael eu huno er mwyn sefydlu fframwaith sicrwydd cyffredinol effeithiol.

## Monitro perfformiad GIG Cymru

3.4 Yn fy adroddiad blaenorol, cyfeiriais at fwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i fonitro perfformiad drwy ddefnyddio cerdyn sgorio cytbwys a fydd yn rhoi darlun mwy cyflawn o berfformiad. Y bwriad oedd sefydlu fframwaith perfformiad a fyddai'n darparu:

- ymagwedd strwythuredig tuag at ganolbwyntio ar amcanion strategol a pherfformiad blynyddol sefydliad;
- system ar gyfer cofnodi perfformiad y sefydliad yn gywir;
- ffordd o sicrhau atebolrwydd am ganlyniadau;

- ffordd o sicrhau y rhennir cyfrifoldeb am wella perfformiad;
- ffordd o ymdrin â materion sy'n ymwneud ag ansawdd, diogelwch, gweithgarwch a chostau;
- "ffordd deg" o wneud penderfyniadau a rhoi canmoliaeth yn wrthrychol.

3.5 Cyflwynwyd y cerdyn sgorio ym mis Gorffennaf 2004 a gwneir gwaith datblygu pellach i fireinio'r dangosyddion perfformiad allweddol.

3.6 I grynhoi, yn gyffredinol, mae GIG Cymru wedi datblygu'r cerdyn sgorio cytbwys i'r graddau y gallai fod wedi disgwyl o gofio'r cyfnod byr ers ei lansio; mae rhai o'r galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd yn cynnwys yr Agenda ar gyfer Newid, contractau GMS, Contractau Ymgynghorwyr, a Chynllun yr Ail Gynnig; a chyfyngiadau o ran adnoddau. Ymddengys fod nifer sylweddol wedi derbyn ei egwyddorion; er bod angen i'r defnydd ohono gael ei ymgorffori ymhellach o fewn pob sefydliad. Mae angen cyflymu'r cynnydd o ran ei weithredu dros y deuddeg mis nesaf er mwyn iddo ddod yn fframwaith cadarn ar gyfer asesu risgiau, nodi achosion risgiau, sicrhau gwelliannau a dyrannu adnoddau prin.

## Adolygiad o Gostau Newid Strwythurol

3.7 Nododd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2002 na fyddai costau rhedeg y strwythur newydd yn fwy na'r strwythur presennol, sef £71.7 miliwn. Cafodd y ffigur ei ddiweddaru i £71.3 miliwn yn adroddiad y Gweinidog i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mawrth 2003. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi fy hysbysu eu bod yn disgwyl i gostau rhedeg y strwythur newydd aros o fewn y terfyn o £71.3 miliwn.

3.8 Cafodd £0.5 miliwn o arian trosiannol ei gymeradwyo ar gyfer Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru yn 2003-2004, ond nid oedd yn ofynnol. Yn fy adroddiad, Cyllidau GIG Cymru 2004, nodais fod arian trosiannol ar gyfer y Ganolfan Gwasanaethau Busnes yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Cafodd £1.1 miliwn o arian trosiannol ei gymeradwyo ar gyfer 2003-2004 ond eto nid oedd yn ofynnol, yn bennaf oherwydd llai o gostau staff oherwydd oedi wrth recriwtio. Argymhellais hefyd fod angen adolygiad mwy manwl o'r ffordd y byddai'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes a Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru yn gweithredu yn ymarferol, o fewn eu cyllidebau diwygiedig a heb beryglu'r broses o ddarparu gwasanaethau. Cyflawnodd y ddau gorff hyn heb orfod cael arian trosiannol yn 2003-2004 a 2004-2005.

3.9 Mae Bwrdd Iechyd Lleol Powys wedi cychwyn ar yr Adolygiad o'r Ffordd Ymlaen, a fydd yn galluogi'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes i ddarparu gwasanaeth cymorth gwell, cost effeithiol, modern ac effeithlon i fyrddau iechyd lleol. Mae hyn yn gyfnod ad-drefnu newydd i'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes ac nid yw'n rhan o'r rhaglen newid strwythurol wreiddiol. Ni chaiff y costau sy'n gysylltiedig â hyn felly, eu cynnwys o fewn y gyllideb costau trosiannol gwreiddiol.

3.10 Mae costau rhedeg ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r strwythurau newydd, fel costau Bwrdd ac adeiladau ychwanegol, wedi golygu bod arbedion wedi bod yn angenrheidiol o'r costau rhedeg sy'n gysylltiedig â'r awdurdodau iechyd blaenorol ac Adran GIG flaenorol Cymru. Mae'r arbedion hyn wedi sicrhau bod costau rhedeg y strwythurau newydd wedi'u cynnwys o fewn yr amlen ariannol.

3.11 Cyflwynwyd amcangyfrif diwygiedig o'r gyllideb ar gyfer costau trosiannol Rhaglen Newid Strwythurol GIG Cymru ar gyfer y cyfnod pedair blynedd hyd at 31 Mawrth 2005 i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mawrth 2003. Ac eithrio arian trosiannol newydd ar gyfer y Ganolfan Gwasanaethau Busnes a Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, diwygiwyd ystod cyllideb y costau trosiannol i swm a oedd rhwng £10.9 miliwn a £14.14 miliwn. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r ystod amcangyfrifedig wreiddiol sef £12.5 miliwn i £15.5 miliwn. £10.6 miliwn yw'r alldro terfynol yn erbyn y gyllideb drosiannol ddiwygiedig (**Ffigur 6**).

## Cynllun Cyflogaeth Estynedig

3.12 Sefydlwyd y Cynllun Cyflogaeth Estynedig ar 1 Ebrill 2003 er mwyn galluogi GIG Cymru i gadw, am 12 mis arall hyd at 31 Mawrth 2004, y staff cymwys hynny sydd â'r sgiliau a'r profiad pwysig nad oedd wedi cael swyddi sylweddol yn dilyn yr ailstrwythuro. Mae'r Cynllun, a weinyddir gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys, hefyd wedi rhoi cymorth i'w helpu i baratoi eu cynlluniau datblygu personol eu hunain a sicrhau swyddi sylweddol mewn mannau eraill.

3.13 Gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Comisiwn Archwilio gynnal archwiliad annibynnol o'r Cynllun yn ystod ei flwyddyn weithredu, i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys yn unol â'r termau y cytunwyd arnynt. Daeth y Comisiwn Archwilio i'r casgliad bod y Cynllun wedi'i weithredu yn unol â'r termau hynny y cytunwyd arnynt. Caiff y canlyniadau ar gyfer y 62 o staff cymwys a oedd yn ymuno â'r Cynllun eu dadansoddi yn **Ffigur 7**.

**6** Costau trosiannol rhaglen newid strwythurol GIG Cymru

| | Alldro terfynol | Ystod cyllideb | |
|---|---|---|---|
| | Gwariant rhagweladwy hyd at 31 Mawrth 2005 | Terfyn Is | Terfyn Uwch |
| | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn |
| Rheoli prosiect | 0.734 | 0.760 | 0.800 |
| Recriwtio | 0.625 | 0.475 | 0.500 |
| Datblygu a Hyfforddiant o fewn y Sefydliad | 0.367 | 0.420 | 0.450 |
| Adeiladau a TG | 2.539 | 2.600 | 2.900 |
| Rhedeg ar Brawf | 0.634 | 0.625 | 0.650 |
| Cynllun Cyflogaeth Estynedig | 5.595 | 5.970 | 8.740 |
| Amrywiol | 0.092 | 0.050 | 0.100 |
| **Cyfanswm** | **10.586** | **10.900** | **14.140** |

*Ffynhonnell : Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol*

## 7 Cynllun Cyflogaeth Estynedig

| Cynllun Cyflogaeth Estynedig | Nifer y staff |
|---|---|
| Staff a ymunodd â'r Cynllun | **62** |
| Staff a gafodd swyddi y tu allan i'r Cynllun | 21 |
| Staff ar secondiadau hirdymor | 9 |
| Staff a gyrhaeddodd oedran ymddeol cyn 31 Mawrth 2004 | 3 |
| Staff a adawodd y Cynllun oherwydd Ymddeoliad ar sail Salwch | 1 |
| Staff a adawodd y Cynllun o ganlyniad i golli swyddi ac ymddeoliad cynnar yn ystod y flwyddyn | 4 |
| Staff a adawodd y Cynllun o ganlyniad i golli swyddi ac ymddeoliad cynnar ar 31 Mawrth 2004 | 24 |
| **Nifer y staff a oedd yn weddill ar y Cynllun ar 1Ebrill 2004** | **0** |

*Ffynhonnell: Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol*

# Effaith adolygiadau o bwys o fewn y GIG

## Adolygiad o iechyd a gofal cymdeithasol

3.14 Cyhoeddwyd yr adolygiad annibynnol hwn gan Derek Wanless ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ym mis Mehefin 2003 ac amlygodd yr angen i gydbwyso'r galw a'r cyflenwad o fewn iechyd a gofal cymdeithasol fel y caiff cleifion eu gweld yn gyflym mewn gwasanaethau ansawdd uchel mor lleol â phosibl. Cadarnhaodd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Adolygiad ar 5 Tachwedd 2003, y byddai'r rhaglen weithredu yn cael ei llunio ar sail pedair thema: Atal; Cyflawni Gwasanaethau; Cynnwys Pobl a Phroffesiynau ac Atebolrwydd a Pherfformiad - gyda Bwrdd Rhaglen yn cael ei sefydlu i ddatblygu'r broses weithredu o dan y pedair thema.

3.15 Crynhoir y camau a gymerwyd hyd yma o dan bob thema fel a ganlyn:

## Atal

- Mae hyn yn rhan bwysig o raglen Wanless ac mae pob rhan o'r GIG wedi cynhyrchu Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles gyda'i phartneriaid i ddatblygu cynlluniau cydgysylltiedig, aml-adrannol i wella ansawdd bywyd.
- Mae'r agenda Atal bellach yn cael ei chyflwyno gan Her Iechyd Cymru, ac mae'n rhan hanfodol o waith y GIG. Dylanwadodd yr ymagwedd yng Nghymru yn gryf ar y Papur Gwyn Iechyd Cyhoeddus a gyhoeddwyd yn Lloegr yn ddiweddar.
- Bellach, ceir ymagwedd sefydledig tuag at nodi, asesu a gweithredu ar waith atal.

## Cyflawni cwasanaethau

- Cynhyrchodd pob bwrdd iechyd lleol Gynllun Gweithredu Wanless manwl ym mis Ebrill 2004. Mae'r broses weithredu wedi cychwyn, a chaiff ei ariannu gan £30 miliwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- Ar hyn o bryd, mae'r broses o ailgynllunio ac ail-gyflunio gofal eilaidd ar y camau cynllunio. Cwblheir cynlluniau eleni, a byddant yn ffurfio rhan o'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Moderneiddio Gofal Aciwt. Caiff hyn ei ategu gan y buddsoddiad cyfalaf sylweddol a glustnodwyd i'r GIG gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- Bydd cynlluniau i ailfodelu gofal cymdeithasol yn cael eu hyrwyddo yn ystod 2005.
- Mae llawer o safleoedd peilot ar gyfer moderneiddio'r gweithlu yn mynd rhagddynt er mwyn hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio.
- Cynhaliwyd adolygiad o iechyd meddwl eisoes.

## Cynnwys pobl

- Cyhoeddwyd canllawiau newydd ar gynnwys gwasanaethau iechyd ac ymgynghori â hwy o ran newidiadau.
- Cynhyrchwyd protocol newydd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd o ran iechyd a gofal cymdeithasol.
- Caiff canllawiau arfer da eu cynhyrchu.

## Perfformiad, cyffredinoli arfer corau a mynd i'r afael â gwastraff

- Cafodd cerdyn sgorio cytbwys y GIG ei ddatblygu ymhellach, ac mae'n gweithio ar wella perfformiad ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae system cymhelliannau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei datblygu ac fe'i cyflwynwyd ar gyfer y GIG.
- Cyflwynwyd system integredig i nodi a lledaenu arfer gorau ac i sicrhau y caiff ei ledaenu'n effeithiol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cyflwynwyd strategaeth ac offer meincnodi.

3.16 Mae is-grwp o'r Bwrdd Rhaglen, yr Is-Grwp Adnoddau, hefyd wedi cyflawni gwaith ym meysydd cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol, oedi wrth drosglwyddo gofal, ystad y GIG, rheoli galw, mesur perfformiad ariannol a gwella'r defnydd o dechnoleg a thele-iechyd.

3.17 Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cadarnhau y bydd y cynlluniau a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i'r adroddiad gan Derek Wanless yn awr yn ffurfio rhan bwysig o'r Fframwaith Cynllunio Strategol 10 mlynedd diwygiedig i'w gwblhau erbyn 1 Ebrill 2005.

## Gwella'r gwasanaethau a ddarperir gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes.

3.18 Sefydlwyd y Ganolfan Gwasanaethau Busnes o dan reolaeth Bwrdd Iechyd Lleol Powys yn dilyn y broses o ailstrwythuro'r pum awdurdod iechyd yn 22 o fyrddau iechyd lleol. Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes yn darparu ystod o wasanaethau gan gynnwys gwasanaethau ariannol, contractwyr, adnoddau dynol a TG i gynorthwyo byrddau iechyd lleol. Ar hyn o bryd mae gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes bum swyddfa yn seiliedig ar swyddfeydd, systemau a staff yr awdurdod iechyd blaenorol fel dull o sicrhau dilyniant a rheolaeth busnes yn ystod y cyfnod trosiannol.

3.19 Fel y nodais yn fy adroddiad diwethaf, comisiynodd Cyfarwyddwr Cyllid GIG Cymru adolygiad ym mis Tachwedd 2003 o'r systemau rheoli mewnol, cytundebau lefel gwasanaeth a threfniadau sefydliadol y Ganolfan Gwasanaethau Busnes. Cynhaliwyd yr adolygiad gan Atos KPMG ac, er iddo ddod i'r casgliad bod y systemau rheoli mewnol yn ddigonol, amlygodd nifer o feysydd a oedd yn achosi pryder megis digonolrwydd trefniadau staffio mewn rhai canolfannau, yr angen am fesurau perfformiad mwy penodol mewn Cytundebau Lefel Gwasanaeth, a'r angen am welliannau gweithredol er mwyn ymdrin â'r ffaith nad yw rheolaethau a chysoniadau yn amlwg, a bod diffyg eglurder o ran swyddogaethau cyfrifyddu rheolwyr.

3.20 Mae rhai o'r materion a nodwyd gan yr adolygiad yn amlwg wedi cyfrannu at rai o'r problemau mewn perthynas â'r oedi yn y cyfrifon a nifer o faterion gwasanaeth eraill a wynebwyd yn 2003-2004. Mae gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys nifer o fentrau a chynlluniau allweddol i fynd i'r afael â'r problemau hyn a'r pwysicaf o'r rhain yw'r Adolygiad o'r Ffordd Ymlaen.

3.21 Cymeradwywyd yr achos busnes ar gyfer yr Adolygiad o'r Ffordd Ymlaen gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys ym mis Medi 2004 ac mae'n lleihau'r gweithrediadau cyfredol o'r pum swyddfa gyfredol i strwythur symlach gyda thair swyddfa wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Ddwyrain Cymru.. Mae'r achos busnes, ynghyd â mentrau eraill yn darparu cyfle mawr i sicrhau bod adnoddau staffio, systemau a gwasanaethau yn cael eu gwella drwy gyfnerthu arfer da yn hytrach na'r arferion gwahanol ac amrywiol a etifeddwyd gan yr awdurdodau iechyd blaenorol.

# 4 Yr Heriau sy'n wynebu GIG Cymru

## Cyflwyniad

4.1 Yn ystod 2003-2004 bu cynnydd sylweddol wrth weithredu Cynllun y GIG "Gwella Iechyd yng Nghymru". Wrth bennu ei blaenoriaethau cyllideb ar gyfer 2003-2004 cydnabu'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr heriau o bwys a'r dewisiadau anodd ynghylch blaenoriaethau a'r modd y defnyddir adnoddau presennol. Gwella iechyd a safonau gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru yw'r her allweddol o hyd. O fewn y cyd-destun hwn, mae fy adroddiad yn ymdrin â rhai o'r pwysau, yn ychwanegol at y materion ailstrwythuro a nodwyd yn **Rhan 3**, a wynebir gan GIG Cymru o ran cyflawni ei dargedau yn effeithiol:

- Creu'r Cysylltiadau: manteisio i'r eithaf ar adnoddau (paragraffau 4.2 i 4.5);
- ilywodraethu corfforaethol a'r fframwaith llywodraethu (paragraffau 4.6 i 4.9);
- y newyddion Diweddaraf am Dwyll yn y GIG (paragraffau 4.10 i 4.17);
- rôl y Comisiwn Archwilio yng Nghymru wrth gesio atal twyll (paragraffau 4.18 i 4.21);
- moderneiddio tâl (paragraff 4.22);
- rhagnodi (paragraff 4.23); a
- fframwaith cyfrifo'r llywodraeth gyfan (paragraff 4.24).

## Creu'r Cysylltiadau: manteisio i'r eithaf ar adnoddau

4.2 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dweud wrthyf ei bod yn ymrwymedig i sicrhau'r gwerth gorau am arian er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd gwell yng Nghymru. O dan fenter "Creu'r Cysylltiadau" Llywodraeth y Cynulliad, pennwyd targed o gyflawni £600 miliwn o welliannau gwerth am arian ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru erbyn 2010. Mae'r fenter yn nodi'r prif feysydd lle y mae'n debygol y caiff arbedion gwerth am arian eu cyflawni:

- **caffael** - gwell defnydd o gaffael cydweithredol, trefnu contractau allanol, adolygiadau Porth ar gyfer systemau caffael mawr neu rai newydd, a'r defnydd o gardiau pwrcasu.
- **gwasanaethau cymorth** - safoni, symleiddio a rhannu prosesau.
- **ail-lunio gwasanaethau** - cynnwys ailgyfluniadau gwasanaeth drwy'r cynlluniau gweithredu Wanless lleol, lleihau beichiau, ad-drefnu ystadau ac adnoddau gormodol eraill.
- **gwell defnydd o staff** - e.e. lleihau absenoldebau oherwydd salwch, gwell cynhyrchiant.

4.3 Fel un o brif wasanaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru, bydd y GIG yng Nghymru yn chwarae rhan fawr yn y broses o gyflawni'r targedau a'r mentrau hyn. Yn draddodiadol, mae'r pwysau ariannol a'r amgylchedd sy'n sail i weithrediad y GIG yng Nghymru wedi golygu bod yr holl sefydliadau iechyd wedi gorfod dod o hyd i arbedion gwerth am arian blynyddol sylweddol fel rhan o'r broses flynyddol o ddyrannu a chynllunio'r gyllideb. Mewn rhai achosion, cynyddwyd y targedau blynyddol hyn ymhellach gan yr angen i ddod o hyd i arbedion ychwanegol fel rhan o fesurau adfer ariannol presennol.

4.4 O ganlyniad i'r pwysau hyn mae'r GIG yng Nghymru wedi cymryd camau i gydweithio'n agosach cyn cychwyn y fenter "Creu'r Cysylltiadau". Mae'r GIG felly wedi sefydlu nifer o fentrau cenedlaethol parhaus sy'n cynnwys defnydd uwch o wasanaethau a rennir (gan gynnwys cynllun peilot yng Ngogledd Cymru), mwy o bwyslais ar ddulliau caffael gwell a nifer o ddatblygiadau moderneiddio eraill sy'n cynnwys gwell defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth, buddsoddiad cyfalaf a nifer o fentrau gwasanaeth cleifion gwell.

4.5 Nid yw cynnal y mentrau hyn yn unig yn ddigon wrth gwrs. Yr her i'r GIG yng Nghymru fydd adeiladu ar y mentrau a gychwynnwyd ganddo eisoes, i sicrhau gwelliannau ymarferol a hirdymor ac i gyflwyno adroddiad ar y datblygiadau hyn a'u monitro'n fwy effeithiol fel y gall ddangos a nodi'r arbedion yn unol â gofynion Creu'r Cysylltiadau.

## Llywodraethu Corfforaethol a'r Fframwaith Llywodraethu

### Safonau Rheoli Risg Cymru

4.6 Mae'n ofynnol i bob corff yn y GIG gynnal hunanasesiad blynyddol yn erbyn safonau Rheoli Risg Cymru, sy'n cwmpasu risgiau clinigol ac anghlinigol, fel rhan o broses adolygu barhaus. Cyflwynir canlyniadau'r ymarfer hwn ynghyd â chynllun gweithredu sy'n nodi'r rhaglen waith arfaethedig i symud eu sefydliad tuag at lefelau cydymffurfio uwch i'r Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Cronfa Rheoli Risg Cymru yn asesu'r safonau hynny a ystyrir yn flaenoriaeth uchel yn annibynnol. Mae gan y Llywodraeth Cynulliad Cymru gytundeb ar waith gyda Chronfa Risg Cymru, sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar hyn o bryd. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Gronfa gynorthwyo sefydliadau'r GIG i ddatblygu systemau rheoli risg drwy ddarparu cyngor, datblygu addysg mewn rheoli risgiau gofal iechyd a hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth ar arfer da a'r gwersi a ddysgwyd.

4.7 Yn 2003-2004, roedd yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ddefnyddio chwe safon rheoli risg (yr oedd pump ohonynt yn safonau craidd) ac (roedd yn ofynnol) i ymddiriedolaethau'r GIG ddefnyddio tri deg ag wyth o safonau rheoli risg, a oedd ar gael ar draws GIG Cymru, fel ffordd o'u hysbysu o'r risgiau sylweddol o fewn eu sefydliadau. Cynllunnir y safonau i gynorthwyo Byrddau pob corff yn y GIG i nodi risgiau, pennu lefelau annerbyniol o risg, a phenderfynu ar y lle gorau i gyfeirio adnoddau prin er mwyn dileu neu leihau'r risgiau hynny. Thema ganolog ar draws y safonau yw pwysigrwydd sicrhau bod gan staff wybodaeth, hyfforddiant a mynediad i gyngor arbenigol sydd ei angen arnynt i arfer eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

4.8 Ar gyfer 2003-2004, ac eithrio Bwrdd Iechyd Lleol Powys, roedd yn ofynnol i bob bwrdd iechyd lleol gyflawni 50% o gydymffurfiaeth â phum safon graidd. Roedd yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol Powys gyflawni 60% ar bob safon graidd ac o leiaf 75% yn gyffredinol. Caiff ei dargedau eu pennu ar lefel uwch na'r 21 o fyrddau iechyd lleol sy'n weddill gan fod ganddo swyddogaethau comisiynydd a darparwr. Ni chyflawnodd y 60% o gydymffurfiaeth lawn ar ei safonau craidd, na'r targed cydymffurfiaeth gyffredinol o 75%. Cyflawnodd pymtheg o'r ddau ar hugain o fyrddau iechyd lleol y targed 50%. **Ffigur 8** mae'r isod yn crynhoi'r gydymffurfiaeth â'r targedau:

8 Cydymffurfiad y Bwrdd Iechyd lleol â'r safonau Rheoli Risg Cymreig

| Safon Graidd | Nifer y byrddau iechyd lleol a gyflawnodd >50% o gydymffurfiaeth |
|---|---|
| A - Polisi a Strategaeth Rheoli Risg | 17 (81%) |
| B - Asesu a Thrin Risgiau | 17 (81%) |
| C - Cofnodi Digwyddiadau a Pheryglon | 18 (86%) |
| E - Llywodraethu | 19 (90%) |
| F - Rheolaeth Ariannol | 19 (90%) |

*Ffynhonnell: Comisiwn Archwilio yng Nghymru*

4.9 Roedd yn ofynnol i ymddiriedolaethau'r GIG gyflawni sgôr o 75% o leiaf yn erbyn y pum safon graidd, a chyflawnodd un ar ddeg o'r pedair ar ddeg o ymddiriedolaethau'r GIG gydymffurfiaeth lawn. Methodd Ymddiriedolaethau GIG Caerdydd a'r Fro, Abertawe a Cheredigion â chyrraedd y targed. Fe'm hysbyswyd gan Gyfarwyddwr GIG Cymru fod cyrff y GIG wedi datblygu cynlluniau gweithredu i geisio mynd i'r afael â'r gwendidau a bod y rhain yn cael eu monitro yn ystod 2004-05.

## Y newyddion Diweddaraf am Dwyll yn y GIG

4.10 Mewn adroddiadau blaenorol ar Gyllid GIG Cymru, rwyf wedi amlinellu'r mesurau pwysig a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i atal twyll yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu Tîm Gweithredol Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru a phenodi Arbenigwyr Atal Twyll Lleol yng nghyrff y GIG. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch a'r Timau Fferyllol, Rhagweithiol Cenedlaethol a Thwyll Deintyddol hefyd yn darparu gwasanaethau i gyrff iechyd yng Nghymru ac mae'r Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch yn parhau i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â thwyll.

4.11 Yn dilyn sefydlu 22 o fyrddau iechyd lleol, bwriedir diweddaru'r Cyfarwyddiadau Gweinidogol a weithredwyd yn gyntaf yn 2001, yn 2005. Mae'r cyfarwyddiadau yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff iechyd yng Nghymru enwebu Arbenigwr Atal Twyll Lleol sy'n gyfrifol am ddatblygu diwylliant gwrth-dwyll yn y corff iechyd ac ymchwilio i achosion o dan werth £15,000. Ar hyn o bryd mae gan GIG Cymru 26 o Arbenigwyr Atal Twyll Lleol achrededig: y mae pedwar ar bymtheg ohonynt wedi'u lleoli mewn ymddiriedolaethau GIG; chwech wedi'u lleoli o fewn pum swyddfa'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes yn darparu gwasanaethau i'r 22 o fyrddau iechyd lleol, ac mae gan un bwrdd iechyd lleol ei arbenigwr enwebedig ei hun.

4.12 Fel yr amlinellwyd yn adroddiad blynyddol Cymru a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch y GIG, buont yn llwyddiannus wrth leihau lefelau Twyll ymhlith Cleifion Fferyllol ac Optegol a Chontractwyr yng Nghymru. Yn ystod 2004, cwblhawyd trydydd ymarfer i amcangyfrif swm yr incwm a gollwyd o ganlyniad i dwyll ymhlith cleifion Deintyddol yng Nghymru, a bydd y canlyniadau ar gael yn fuan. Yn ogystal, caiff ymarfer mesur risgiau arall ar dwyll deintyddol ei gynnal ar y cyd rhwng Cymru a Lloegr ac mae'r canlyniadau yn debygol o fod ar gael ar ddechrau mis Ebrill neu fis Mai 2005.

4.13 Mae Tîm Gweithredol Gwasanaeth Atal Twyll Cymru wedi derbyn 47 atgyfeiriad o dwyll neu lygredd honedig hyd yn hyn. Ar ddiwedd 2004, cwblhaodd y tîm 30 o ymchwiliadau ac adenillwyd £259,500. Mae'r 17 achos sy'n weddill, y mae ymchwiliadau yn parhau iddynt, yn cynnwys tuag £1 filiwn. Derbyniodd yr Arbenigwyr Atal Twyll Lleol 205 o atgyfeiriadau achos hyd at ddiwedd 2004. Cwblhawyd 76 o'r atgyfeiriadau ac adenillwyd £283, 202 o ganlyniad. Ar gyfer yr holl ymchwiliadau, caiff yr ystod lawn o sancsiynau sydd ar gael y gellir eu defnyddio i rwystro neu atal twyll eu hystyried. O'r achosion a gwblhawyd, roedd 21 o sancsiynau troseddol, 19 o rai dinesig a 28 o rai disgyblaethol wedi codi.

4.14 Mae Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch y GIG yn parhau i wneud cyfraniad allweddol at nodi, ymchwilio ac atal twyll. Mae'r datblygiadau pwysig yn ystod 2004 yn cynnwys:

- Llofnodi Memorandwm Dealltwriaeth rhwng Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch y GIG a Chyllid y Wlad ym mis Gorffennaf 2004.
- Cwblhawyd yr ymarfer rhagweithiol cenedlaethol cyntaf yn GIG Cymru a gynlluniwyd i ddatgelu ac atal twyll gan staff asiantaeth a staff cronfa'r GIG yn ystod 2004. Nododd yr ymarfer hwn un achos pwysig o dwyll yn ymwneud â thaflen amser y manylir arno yn **Ffigur 9** a nifer o faterion eraill mewn systemau a gweithdrefnau a arweiniodd at gymryd camau cywirol i atgyfnerthu gweithdrefnau presennol. Cychwynnwyd yr ail ymarfer rhagweithiol cenedlaethol

ar dwyll yn y gyflogres yn y GIG yng Nghymru yn 2004 a bwriedir ei gwblhau yn fuan.

- Cynhaliwyd digwyddiadau mewn pedair ar bymtheg o leoliadau yn GIG Cymru fel rhan o fis ymwybyddiaeth o dwyll blynyddol y GIG. Cyfarfu staff atal twyll GIG Cymru â dros 3,400 o staff y GIG a'r cyhoedd, gan helpu i godi ymwybyddiaeth gyffredinol o strategaeth atal twyll y GIG ac egluro rôl staff y GIG yn y broses o fynd i'r afael â thwyll a llygredd yn GIG Cymru.
- Parhaodd y cyflwyniadau atal twyll rheolaidd i staff GIG Cymru yn ystod 2004, ac mae'r rhain yn cynnwys diwrnodau sefydlu, diwrnodau hyfforddi a briffiau i gyrff proffesiynol a phwyllgorau archwilio. Cynhaliodd Tîm Gweithredol Gwasanaeth Atal Twyll Cymru ddau ar bymtheg o gyflwyniadau yn ystod y flwyddyn.
- Mae cyhoeddusrwydd yn cael ei gynhyrchu ynghylch achosion llwyddiannus er mwyn helpu i atgyfnerthu'r neges bod twyll yn annerbyniol yn GIG Cymru. Mae gwybodaeth berthnasol ac eitemau newyddion diweddaraf ar gael i gyrff iechyd yng Nghymru drwy wefan Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch y GIG tra bod canllawiau a gwybodaeth benodol ar gyfer arbenigwyr atal twyll achrededig ar gael drwy safle rhyngrwyd diogel.
- Cafodd Llinell Gofnodi Twyll a Llygredd y Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch ei hyrwyddo'n eang ar draws GIG Cymru a derbyniwyd cyfanswm o 55 o alwadau yn cofnodi achosion o dwyll a amheuwyd yn GIG Cymru. Hyd yma, mae'r atgyfeiriadau wedi arwain at ddau erlyniad llwyddiannus ac mae llawer o ymchwiliadau yn mynd rhagddynt.

## 9 Gwasauaethau gwrth-dwyll y GIG-enghreifftiau o achosion twyll

**1. Uwch Nyrs - Twyll Taflen Amser**

Rhwng mis Awst 2002 a mis Medi 2003 cyflwynodd uwch nyrs gyfanswm o 191 o hawliadau ffug am sifftiau cronfa nad oedd erioed wedi'u cwblhau. Byddai'r nyrs yn ychwanegu at y taflenni amser ar ôl iddynt gael eu hawdurdodi gan ei goruchwyliwr a derbyniodd £36,000 o gyflog nad oedd ganddi hawl iddo. Plediodd yn euog yn Llys y Goron Caerdydd i gyfanswm o naw cyhuddiad o gyfrifyddu ffug ac ystyriwyd 169 o ddigwyddiadau eraill hefyd, ac fe'i dedfrydwyd i naw mis o garchar ym mis Gorffennaf 2004. Mae'r nyrs wedi ymddiswyddo ac mae camau sifil yn cael eu cymryd i adennill y £36,000.

**2. Meddyg Teulu**

Ffugiodd Meddyg Teulu lofnodion ar lyfrau presgripsiwn meddygon eraill a gafodd o glinigau y tu allan i oriau gwaith mewn ysbytai lleol. Cyhoeddwyd y presgripsiynau ffug yn enw aelodau teulu ac fe'u defnyddiwyd i gael cyffuriau colli pwysau. Honnwyd bod y cyffuriau wedi cael eu defnyddio ar gyfer ei gleifion preifat a oedd yn mynychu clinig colli pwysau yr oedd y meddyg teulu yn ei redeg. Plediodd y meddyg teulu yn euog ym mis Awst 2004 yn Llys y Goron Abertawe i dri chyhuddiad o gael gafael ar eiddo drwy dwyll, ac fe'i dedfrydwyd i Orchymyn Adsefydlu Cymunedol a gorchmynnwyd iddo dalu £416 o gostau. Atgyfeiriwyd y mater hefyd i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

**3. Gweithiwr Gofal Iechyd**

Gwnaeth Gweithiwr Gofal Iechyd gais llwyddiannus i gwblhau Gradd Nyrsio tair blynedd ym Mhrifysgol Cymru, a ariannwyd gan ei Ymddiriedolaeth GIG. Roedd y cytundeb yn golygu ei fod yn cael cyflog misol am y cwrs tair blynedd a'i fod yn ofynnol iddo weithio yn yr Ymddiriedolaeth yn ystod gwyliau'r haf. Fodd bynnag, methodd ei arholiadau a gofynnwyd iddo adael y cwrs, ond ni hysbysodd ei gyflogwyr. Gwnaethant barhau i dalu cyflog o £9,350 iddo rhwng mis Medi 2002 a mis Awst 2003. Plediodd yn euog i 12 o droseddau o gael trosglwyddiad arian drwy dwyll yn llys Ynadon Pen-y-bont ar Ogwr ac fe'i dedfrydwyd i Orchymyn Gwasanaeth Cymunedol 200 o oriau. Ad-dalwyd £9,350 i'r Ymddiriedolaeth.

*Ffynhonnell: Tîm Gweithredol Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru*

- Penododd y Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch Swyddog Cyswllt Cymru ym mis Awst 2004 i ddatblygu a chynnal cydberthnasau corfforaethol rhwng y Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cynhelir cyfarfodydd chwarterol rhwng y Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch a Llywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu cynnydd o ran atal twyll yng Nghymru.
- Parhad y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd sy'n sicrhau y caiff yr holl waith atal twyll ei gyflawni i safon uchel ac y cynhelir safonau ar draws Cymru. Yn ystod 2004 cynhaliodd y Tîm Sicrwydd Ansawdd adolygiadau mewn wyth corff iechyd yng Nghymru ac mae adroddiadau o bedwar o'r adolygiadau hyn wedi'u cyhoeddi hyd yn hyn. Barn Tîm Gweithredol Gwasanaeth Atal Twyll Cymru yw bod yr adroddiadau arolygu hyn, yn gyffredinol, yn cadarnhau ymrwymiad i waith atal twyll. Amlygwyd rhai gwelliannau yn yr adroddiadau a gwnaethant hefyd argymell rhaglenni gwaith mwy rhagweithiol ar gyfer codi ymwybyddiaeth o dwyll a chanfod twyll.

4.15 Mae llawer o achosion Gwasanaeth Gweithredol Gwasanaethau Atal Twyll GIG (Cymru) ac Arbenigwyr Atal Twyll Lleol wedi arwain at erlyniadau llwyddiannus. Mae Ffigur 9 yn rhoi rhagor o wybodaeth ar dri achos a gwblhawyd yn 2004.

4.16 Yn ogystal mae Tîm Gweithredol Gwasanaethau Atal Twyll Cymru yn delio â llawer o ymchwiliadau optegol parhaus lle y mae'r optometryddion wedi ad-dalu cyfanswm o £194,000 i'r GIG yn ystod 2003-2004.

## Twyll taliadau presgripsiwn

4.17 Mae'r Uned Dilysu Ôl-Daliadau (rhan o Ymddiriedolaeth GIG Felindre) yn gyfrifol am ymchwilio i honiadau o gael eithriad rhag taliadau presgripsiwn perthnasol, ac i fynd ati i geisio adennill taliadau o'r fath ac i godi taliadau cosb a gordaliadau eraill fel y bo'n briodol. **Ffigur 10** mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r gwaith a gyflawnwyd.

### 10 Crynodeb o waith a gyflawnwyd gan yr Uned Wirio ôl-bresgripsiwn

| **Ymchwiliad** | **31 Rhagfyr 2004** | **31 Rhagfyr 2003** |
|---|---|---|
| Sgriptiau a Archwiliwyd | 184,000 | 350,000 |
| Llythyron cychwynnol | 9,900 | 12,000 |
| *Llythyron dilynol* | | |
| Cosbau | 3,300 | 3,000 |
| Gordaliadau | 2,200 | 1,800 |
| Incwm presgripsiwn a adenillwyd | £27,300 | £31,000 |
| Costau a gordaliadau | £64,600 | £34,000 |

*Ffynhonnell: Uned Dilysu Prisiau Presgripsiwn*

## Rôl y Comisiwn Archwilio yng Nghymru wrth geisio atal twyll

4.18 Stiwardio arian cyhoeddus yn briodol yw conglfaen busnes y sector cyhoeddus. Mae'n rhaid i archwilwyr penodedig ystyried p'un a oes trefniadau digonol gan gyrff GIG i gynnal safonau rheolaeth ariannol priodol ac er mwyn atal a chanfod colledion drwy dwyll a llygredd. Dywedodd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru wrthyf, yn gyffredinol, fod fframweithiau cadarn ar waith ar draws byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG. Fodd bynnag, nodwyd nifer o wendidau ac anghysondebau yn lefel y gwasanaethau atal twyll a ddarperir i fyrddau iechyd lleol gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes. Roedd lefel isel y gwaith gwrth-dwyll a gweithgaredd dilysu ôl-daliadau ar wasanaethau meddygol cyffredinol a thaliadau offthalmig yn rhai o'r byrddau iechyd lleol yn briodoladwy i newidiadau mewn personél a'r diffyg adnoddau mewn rhai o safleoedd y Ganolfan Gwasanaethau Busnes. Cadarnhaodd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru fod argymhellion wedi cael eu cyflwyno i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer y dyfodol.

4.19 Fe'm hysbyswyd gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru hefyd bod sefydlu 22 o fyrddau iechyd lleol gyda byrddau anweithredol mawr wedi arwain at bryderon ynglyn â gwybodaeth a phrofiad swyddogion anweithredol i archwilio dulliau rheoli mewnol, adroddiadau ariannol a chydymffurfiaeth â materion rheoliadol. Yn ystod 2003-2004 argymhellodd y Comisiwn Archwilio hyfforddiant ychwanegol mewn rhai byrddau iechyd lleol er mwyn sicrhau bod swyddogion anweithredol yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn.

4.20 Mae Deddf Datgelu Er Budd y Cyhoedd yn rhoi diogelwch statudol i gyflogeion y sector cyhoeddus, gan gynnwys staff y GIG, sy'n 'chwythu'r chwiban' ar dwyll a llygredd sy'n digwydd yn y cyrff sy'n eu cyflogi. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Comisiwn Archwilio, fel 'person penodedig' o dan y Ddeddf, wedi derbyn nifer o achosion Datgelu Er Budd y Cyhoedd sy'n ymwneud â chyrff cyhoeddus yng Nghymru. Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o'r fath yn gysylltiedig â chyrff y GIG yng Nghymru yn 2003-2004.

4.21 Croesawaf y mesurau a gymerir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Gwasanaeth Atal Twyll a'r cyrff iechyd amrywiol yng Nghymru i fynd i'r afael â thwyll, a byddwn yn parhau i adolygu a chyflwyno adroddiad ar gynnydd yn y maes pwysig hwn.

## Moderneiddio tâl

4.22 Yn 2004-2005 cyflwynwyd nifer o brosiectau allweddol a oedd yn anelu at foderneiddio tâl Ymgynghorwyr, Meddygon Teulu a staff y GIG. Mae newidiadau pellach mewn contractau ar gyfer meddygon a fferyllwyr dros y ddwy flynedd nesaf hefyd. Ar gyfer 2005-2006 mae cost y contractau newydd hyn wedi ymgorffori'r holl dwf mewn arian iechyd ac wedi arwain at yr angen am arbedion effeithlonrwydd o dros 3% yn y GIG. Mae'r contractau newydd yn gyfle i ganfod ffyrdd gwell o weithio a bydd angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru fonitro gwelliannau cynhyrchiant yn y dyfodol a ph'un a gyflawnwyd gwerth am arian drwy'r broses foderneiddio.

## Rhagnodi

4.23 Yn ystod y cyfnod 2003 i 2005 mae cyllidebau rhagnodi gofal sylfaenol wedi parhau ar y trywydd iawn yn bennaf oherwydd arbedion ar hap o gyffuriau lle mae'r patent wedi dod i ben a chyffuriau sydd wedi cael eu disodli gan opsiynau rhatach, a gwelliannau mewn prisiau sy'n deillio o ail-negodi'r Cynllun Rheoleiddio Prisiau Prynu. Yng Nghymru, clustnodwyd yr arian hwn i ariannu costau'r contract fferyllwyr newydd ar gyfer 2005-2006 ac fe'i clustnodwyd yn Lloegr ar gyfer y contract ymgynghorwyr newydd. Lle y mae byrddau iechyd lleol wedi cyfeirio'r arian hwn i reoli pwysau eraill o ran costau, bydd angen iddynt nodi arbedion yn eu cyllidebau rhagnodi er mwyn parhau i sicrhau cydbwysedd ariannol yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

## Datblygiadau Cyfrifyddu'r Llywodraeth Gyfan

4.24 Yn draddodiadol, mae cyrff unigol y GIG wedi bod ymhlith y gwasanaethau cyhoeddus cyntaf i gau a chadarnhau eu cyfrifon unigol bob blwyddyn cyn y broses grynhoi. Mae'r datblygiadau Cyfrifyddu Llywodraeth Gyfan yn enwedig ar gyfer 2005-2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddwyn yr holl brosesau cadarnhau cyfrifon ymlaen nifer o fisoedd. Caiff hyn effaith sylweddol ar amserlenni cyflwyno adroddiadau'r holl gyrff cyhoeddus ac ar y broses archwilio. Mae'n hanfodol felly bod y GIG yn edrych ar ffyrdd o sicrhau ei fod yn cau ei gyfrifon hyd yn oed yn gynt yn 2005-2006 a'i fod yn gweithio'n agos gyda'r archwilwyr penodedig a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni'r amserlen.

# Atodiad 1

## Alldro a ragwelir ar gyfer 2004-2005

| | Alldro a ragwelir cyn cymorth SCEP £'000 |
|---|---|
| **Rhanbarth De Ddwyrain Cymru** | |
| BILl Caerdydd | (4,300) |
| BILl Merthyr Tudful | 132 |
| BILl Rhondda Cynon Taf | - |
| BILl Bro Morgannwg | (1,149) |
| BILl Blaenau Gwent | 50 |
| BILl Caerffili | - |
| BILl Sir Fynwy | (700) |
| BILl Casnewydd | - |
| BILl Tor-faen | - |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | (2,100) |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg | - |
| Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda | 400 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | (469) |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 1,452 |
| | **(6,684)** |
| **Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru** | |
| BILl Sir Gaerfyrddin | (150) |
| BILl Ceredigion | - |
| BILl Sir Benfro | - |
| BILl Powys | - |
| BILl Pen-y-bont ar Ogwr | 200 |
| BILl Castell-nedd a Phort Talbot | - |
| BILl Abertawe | - |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin | (4,500) |
| Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion | (484) |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen | (2,444) |
| Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg | - |
| Ymddiriedolaeth GIG Abertawe | - |
| | **(7,378)** |
| **Rhanbarth Gogledd Cymru** | |
| BILl Conwy | - |
| BILl Sir Ddinbych | - |
| BILl Sir y Fflint | - |
| BILl Gwynedd | - |
| BILl Wrecsam | 9 |
| BILl Ynys Môn | - |
| Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych | - |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru | - |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru | 205 |
| | **214** |
| **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru** | **111** |
| | |
| **Cyfanswm y byrddau iechyd lleol** | **(5,908)** |
| **Cyfanswm ymddiriedolaethau'r GIG** | **(7,829)** |
| **Comisiwn Iechyd Cymru (Gwasanaethau Arbenigol)** | **(10,298)** |

*Ffynhonnell: Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol*

# Atodiad 2

## Perfformiad talu'r sector cyhoeddus 2002-2003 a 2003-2004

| | 2002-2003 | | 2003-2004 | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwerth biliau nad ydynt yn ymwneud â'r GIG % | Nifer y biliau nad ydynt yn ymwneud â'r GIG % | Gwerth biliau nad ydynt yn ymwneud â'r GIG % | Nifer y biliau nad ydynt yn ymwneud â'r GIG % |
| **Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru** | | | | |
| Bwrdd Iechyd Lleol Pen-y-bont ar Ogwr | - | - | 85.2 | 91.7 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin | - | - | 97.6 | 95.6 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Ceredigion | - | - | 95.9 | 95.8 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Castell-nedd Port Talbot | - | - | 85.2 | 91.7 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro | - | - | 98.4 | 97.8 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Powys | - | - | 87.6 | 90.6 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe | - | - | 85.2 | 91.7 |
| Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg | 84.8 | 87.1 | 96.0 | 95.6 |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin | 72.4 | 70.3 | 89.2 | 86.9 |
| Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 97.7 | 97.7 | 93.8 | 96.0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen | 83.5 | 79.8 | 93.3 | 91.1 |
| Ymddiriedolaeth GIG Abertawe | 96.7 | 93.3 | 96.2 | 95.1 |
| **Rhanbarth Gogledd Cymru** | | | | |
| Bwrdd Iechyd Lleol Ynys Môn | - | - | 95.3 | 94.2 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Conwy | - | - | 96.8 | 95.6 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych | - | - | 98.5 | 97.1 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint | - | - | 99.7 | 97.9 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd | - | - | 94.5 | 96.3 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam | - | - | 97.4 | 96.5 |
| Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Dinbych | 93.7 | 90.2 | 96.7 | 93.6 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru | 83.6 | 86.4 | 83.3 | 82.0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru | 96.9 | 95.5 | 97.6 | 97.5 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 96.1 | 93.9 | 97.5 | 95.6 |

| | 2002-2003 | | 2003-2004 | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwerth biliau nad ydynt yn ymwneud â'r GIG % | Nifer y biliau nad ydynt yn ymwneud â'r GIG % | Gwerth biliau nad ydynt yn ymwneud â'r GIG % | Nifer y biliau nad ydynt yn ymwneud â'r GIG % |
| **Rhanbarth y De Ddwyrain** | | | | |
| Bwrdd Iechyd Lleol Blaenau Gwent | - | - | 93.9 | 89.5 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili | - | - | 95.1 | 84.3 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd | - | - | 99.8 | 99.5 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful | - | - | 99.6 | 99.4 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy | - | - | 94.8 | 87.5 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Casnewydd | - | - | 96.2 | 88.8 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf | - | - | 99.9 | 99.8 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Tor-faen | - | - | 97.7 | 89.7 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg | - | - | 99.7 | 99.5 |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | 86.7 | 83.4 | 93.9 | 93.5 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | 61.6 | 58.2 | 87.9 | 86.1 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg | 58.7 | 55.2 | 86.1 | 82.2 |
| Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda | 83.1 | 69.6 | 94.8 | 90.6 |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 96.9 | 95.2 | 90.3 | 91.6 |
| **Comisiwn Iechyd Cymru (Gwasanaethau Arbenigol)** | **-** | **-** | **97.9** | **81.6** |
| Awdurdod Iechyd Bro Taf | 99.9 | 99.0 | - | - |
| Awdurdod Iechyd Dyfed Powys | 97.9 | 94.3 | - | - |
| Awdurdod Iechyd Gwent | 99.7 | 93.8 | - | - |
| Awdurdod Iechyd Morgannwg | 98.7 | 86.5 | - | - |
| Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru | 99.5 | 95.7 | - | - |
| **Pob awdurdod iechyd** | **93.3** | **99.2** | **-** | **-** |
| **Pob bwrdd iechyd lleol** | **-** | **-** | **90.9** | **92.2** |
| **Pob un o ymddiriedolaethau'r GIG** | **84.1** | **80.0** | **92.9** | **91.0** |
| **Cyfanswm Cymru Gyfan (ac eithrio Comisiwn Iechyd Cymru)** | **93.8** | **85.2** | **91.9** | **91.6** |

# Atodiad 3

## Atodlen ad-dalu ar gyfer dyrannu adnoddau ychwanegol a ddarparwyd o dan Gynlluniau Newid Strategol ac Effeithlonrwydd

Atodlen Ad-dalu ar gyfer dyrannu adnoddau ychwanegol a ddarparwyd o dan Gynlluniau Newid Strategol ac Effeithlonrwydd

| | Dygwyd ymlaen £m | 2003-2004 £m | 2004-2005 £m | 2005-2006 £m | 2006-2007 £m | 2007-2008 £m | 2008-2009 £m | Heb ei broffilio £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| BILl Ceredigion | 0.276 | (0.276) | - | - | - | - | - | - | - |
| BILl Sir Gaerfyrrdin | 0.622 | - | 0.150 | - | (0.266) | (0.266) | (0.240) | - | - |
| BILl Sir Benfro | 0.420 | (0.420) | - | - | - | - | - | - | - |
| Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion | 0.892 | 0.892 | 0.484 | - | (0.756) | (0.756) | (0.756) | - | - |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen | 2.444 | 3.350 | 2.444 | - | (1.500) | (3.000) | (3.738) | - | - |
| BILl Powys | 0.832 | 0.504 | - | (0.189) | (0.570) | (0.577) | - | - | - |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin | 6.002 | 4.927 | 4.500 | - | (5.140) | (5.140) | (5.149) | - | - |
| **Y Canolbarth a'r Gorllewin** | **11.488** | **8.977** | **7.578** | **(0.189)** | **(8.232)** | **(9.739)** | **(9.883)** | **-** | **-** |
| BILl Sir Fynwy | - | 0.700 | 0.700 | - | (0.406) | (0.497) | (0.497) | - | - |
| BILl Casnewydd | - | 0.900 | - | - | (0.300) | (0.300) | (0.300) | - | - |
| BILl Bro Morgannwg | 0.858 | 1.811 | 1.149 | - | (0.721) | (1.196) | (1.901) | - | - |
| BILl Caerdydd | 2.261 | 5.015 | 4.300 | - | (2.674) | (4.451) | (4.451) | - | - |
| BILl Rhondda Cynon Taf | 1.577 | - | - | - | - | - | - | (1.577) | - |
| BILl Merthyr Tudful | 0.340 | - | - | - | - | - | - | (0.340) | - |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | 13.629 | 2.507 | 2.100 | (8.579) | - | - | - | (9.657) | - |
| **Y De Ddwyrain** | **18.665** | **10.933** | **8.249** | **(8.579)** | **(4.101)** | **(6.444)** | **(7.149)** | **(11.574)** | **-** |
| **Comisiwn Iechyd Cymru (Gwasanaethau Arbenigol)** | **0.164** | **-** | **10.200** | **10.000** | **5.000** | **-** | **-** | **(25.364)** | **-** |
| **Cyfanswm** | **30.317** | **19.910** | **26.027** | **1.232** | **(7.333)** | **(16.183)** | **(17.032)** | **(36.938)** | **-** |

NODIADAU

Mae swm Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro ar gyfer 2005-2005 yn cynnwys £10.179 a ddiddymwyd.
Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn cyfeirio at ad-daliadau ar gyfer adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd.

*Ffynhonnell: Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol*